# Ymgynghoriad ar y 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)'

**Rhagfyr 2020**

Department for Environment Food & Rural Affairs

Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

(h) Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:

pesticides@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys


1 Diben ....6

1.1 Pam rydym yn ymgynghori ....6

1.2 Sut rydym yn ymgynghori ....6

1.3 Sut i ymateb ....7

1.4 Cyfrinachedd a diogelu data ....7

2 Drafft o'r ‘Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)’ ....9

2.1 Crynodeb Gweithredol ....9

2.2 Diffiniadau o Dermau ....14

2.2.1 Plâu ....14

2.2.2 Pla cwarantin ....14

2.2.3 Plaleiddiaid ....14

2.2.4 Ymwrthedd i blaleiddiaid ....14

2.2.5 Rheoli Plâu Integredig ....15

2.3 Cefndir ....18

2.4 Nod 1 – Gwell Rheoleiddio ....20

2.4.1 Datblygu ein system reoleiddio ....20

2.4.2 Ymchwil a datblygu i gefnogi gweithdrefnau rheoleiddio ....21

2.4.3 Rheoleiddio Bioblaleiddiaid ....23

2.5 Cwestiynau ar Nod 1 – Gwell Rheoleiddio ....24

2.6 Nod 2 – Hyrwyddo'r Defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig ....25

2.6.1 Gwella addysg, cyfnewid gwybodaeth a chyngor ....26

2.6.2 Gwella safonau a rhannu gwybodaeth yn y sector amwynder ....29

2.6.3 Defnydd amatur ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ....32

2.6.4 Cymorth ariannol ar gyfer Rheoli Plâu Integredig ....32

2.6.5 Ymchwil a Datblygu i gefnogi dulliau Rheoli Plâu Integredig ..........................34

2.7 Cwestiynau ar Nod 2 – Hyrwyddo'r Defnydd o Ddulliau Rheoli Plâu Integredig ...36

2.8 Nod 3 – Defnydd Diogel a Chyfrifol o Blaleiddiaid ..............................................37

2.8.1 Cydymffurfiaeth ..........................................................................................37

2.8.2 Gwerthu cynhyrchion proffesiynol ...............................................................38

2.8.3 Ardystio .......................................................................................................39

2.8.4 Gorfodi yn y sector amwynder.....................................................................40

2.8.5 Canllawiau i ddefnyddwyr amatur ...............................................................40

2.8.6 Profi cyfarpar ac arloesi...............................................................................41

2.8.7 Gwybodaeth am gynhyrchion......................................................................42

2.9 Cwestiynau ar Nod 3 – Defnydd Diogel a Chyfrifol ..............................................43

2.10 Nod 4 – Targedau, Metrigau a Dangosyddion .....................................................44

2.10.1 Dangosyddion o'r defnydd o blaleiddiaid a llwyth ..........................................44

2.10.2 Dangosyddion amgylcheddol .......................................................................46

2.10.3 Y nodau presennol .......................................................................................51

2.10.4 Monitro ac asesu risg ...................................................................................52

2.11 Cwestiynau ar Nod 4 – Targedau, Metrigau a Dangosyddion .............................53

2.12 Nod 5 – Cyflawni'r CGC.......................................................................................54

2.13 Cwestiynau i Gloi ..................................................................................................55

3 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 2013 y DU ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid Adolygiad o'r Dangosyddion....................................................56

3.1 Cyflwyniad ............................................................................................................56

3.2 Trosolwg o'r asesiad o newid ar gyfer dangosyddion CGC 2013 .........................58

3.3 Asesu dangosyddion ............................................................................................58

3.4 Defnydd o Blaleiddiaid ..........................................................................................64

3.4.1 Cnydau âr.....................................................................................................64

3.4.2 Gwenith ........................................................................................................67

3.5 Diogelu Dŵr ........................................................................................................69

3.6 Cynlluniau amaeth-amgylchedd.........................................................................74

# 1 Diben

## 1.1 Pam rydym yn ymgynghori

Ar gyfer yr ymgynghoriad canlynol, mae Llywodraethau'r DU wedi llunio Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig drafft ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (drafft y CGC diwygiedig). Nod y CGC Diwygiedig Drafft ywcynyddu'r defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig a diogelu cnydau, yn unol â Chynllun Amgylchedd 25-mlynedd Defra, Polisi Adnoddau Naturiol Gweinidogion Cymru, Strategaeth yr Amgylchedd yr Alban a nodau Strategaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i ddiogelu a gwella'r amgylchedd i genedlaethau'r dyfodol. Caiff y CGC ei gyflwyno i gefnogi targedau Llywodraethau ledled y DU ynglŷn â bioamrywiaeth a charbon sero net. Mae Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig am ystyried ymhellach farn defnyddwyr plaleiddiaid, diwydiannau sy'n ymwneud â phlaleiddiaid (gan gynnwys bwyd, manwerthu a gweithgynhyrchu), grwpiau'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, a'r cyhoedd mewn ymdrech i symud ymlaen gyda'n gilydd ar faterion sy'n ymwneud â phlaleiddiaid.

Mabwysiadwyd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol presennol ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (CGC 2013) o dan Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012. Mae'n ofyniad statudol adolygu CGC 2013 a hefyd yn ymrwymiad o dan y Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd.  Paratowyd drafft y CGC diwygiedig gyda chymorth nifer o randdeiliaid allweddol. Fodd bynnag, bydd ymgynghoriad ffurfiol yn gyfle i'r amrywiaeth o safbwyntiau gael eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi CGC diwygiedig terfynol.

## 1.2 Sut rydym yn ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn ar ddrafft y CGC diwygiedig, gyda manylion ynglŷn â sut i ymateb isod. Ymgynghoriad 12 wythnos ydyw, a bydd yn rhaid i ymatebion gael eu cyflwyno erbyn dydd Gwener 26  Chwefror 2021.

Hoffem glywed eich barn ar bob agwedd ar ddrafft y CGC diwygiedig a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori hon, ac mae pob opsiwn yn bosibl ar yr adeg hon o'r broses adolygu. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys set o gwestiynau ar ddiwedd pob un o'r pum adran o'r drafft y byddem yn ddiolchgar am gael eich barn arnynt.

At ddibenion rheoli'r ymgynghoriad, Defra fydd y prif bwynt cyswllt. Fodd bynnag, bydd Defra yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y broses ac wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn cyhoeddi crynodeb. Bydd y dadansoddiad hwn yn llywio'r broses o ddrafftio'r CGC diwygiedig terfynol ymhellach.

## 1.3 Sut i ymateb

Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau. Cyflwynwch eich ymatebion drwy'r ddolen ganlynol i Citizen Space (adnodd ymgynghori ar-lein), https://consult.defra.gov.uk/pesticides-future-strategy/sustainable-use-of-pesticides-national-action-plan. Bydd hyn yn mynd â chi drwy gwestiynau'r ymgynghoriad, a hefyd roi'r opsiwn o gyflwyno sylwadau cyffredinol. Os cewch unrhyw broblemau neu os bydd angen copi caled arnoch, cysylltwch â pesticides@defra.gov.uk.

Er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion a deall yr amrywiaeth o randdeiliaid yn well, yn eich ymateb, nodwch y canlynol:

1. A ydych am i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol (yn unol â'r datganiad Cyfrinachedd a Diogelu Data isod)
    a. *Ydw*
    b. *Nac ydw*
2. Eich enw?
3. Eich cyfeiriad e-bost?
4. Amdanoch chi (dewiswch yr opsiwn mwyaf perthnasol) – Rwy'n ymateb fel:
    a) *Aelod o'r cyhoedd*
    b) *Rheolwr neu ddatblygwr tir neu amwynder*
    c) *Tyfwr garddwriaethol neu arddwr proffesiynol*
    d) *Ffermwr*
    e) *Cynrychiolydd o sefydliad ffermwyr neu dyfwyr*
    f) *Cynrychiolydd o'r diwydiant gweithgynhyrchu neu ddosbarthu plaleiddiaid*
    g) *Cynrychiolydd o'r diwydiant manwerthu neu fwyd*
    h) *Cynrychiolydd o'r llywodraeth neu awdurdod lleol*
    i) *Cynrychiolydd o sefydliad anllywodraethol*
    j) *Agronomegwr neu gynghorydd ar reoli plâu*
    k) *Gwyddonydd, ymchwilydd neu academydd*
    l) *Arall – nodwch mewn 25 gair ar y mwyaf*
5. Enw eich sefydliad (os yw'n gymwys)?

## 1.4 Cyfrinachedd a diogelu data

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli a, lle y bo'n berthnasol, â phwy arall y maent wedi ymgynghori er mwyn dod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru pob sefydliad a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Efallai y bydd Defra yn cyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel y bydd ar gael i'r cyhoedd ond heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (e.e. cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein, cewch yr opsiynau canlynol wrth ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol:

a. Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol ac esbonio pam. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn bosibl y caiff gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (sy'n cynnwys yn bennaf Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae rhwymedigaethau arnom, yn bennaf o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd o dan amgylchiadau penodol. Yng ngoleuni hyn, bydd eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am i ran neu'r cyfan o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol yn ein helpu i gydbwyso'r rhwymedigaethau hyn i ddatgelu gwybodaeth ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais am y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ond ni allwn warantu y byddwn yn gallu ei gadw'n gyfrinachol ar bob achlysur.
b. Os byddwch yn clicio ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, heb roi eich enw personol nac unrhyw fanylion cyswllt preifat.

Efallai y bydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych yn ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol, a hynny at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu hanfon at:

Consultation Coordinator, Defra
2nd Floor,
Foss House,
Kings Pool,
1-2 Peasholme Green,
York, YO1 7PX

Neu anfonwch neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk

# 2 Drafft o'r ‘Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)’

## 2.1 Crynodeb Gweithredol

Mae plaleiddiaid yn chwarae rhan bwysig i gefnogi iechyd planhigion a gweithgarwch cynhyrchu cnydau a chynnal a chadw seilwaith cenedlaethol a mannau cyhoeddus yn y DU. Mae defnydd wedi'i dargedu o blaleiddiaid yn diogelu ein cnydau a'n tirweddau naturiol rhag plâu brodorol a phlâu estron goresgynnol; cefnogi gweithgarwch cynhyrchu bwyd domestig, ecosystemau a chynnal a chadw ein hardaloedd hamdden, trafnidiaeth ac amwynder. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw'r defnydd o blaleiddiaid yn achosi risg annerbyniol i iechyd yr amgylchedd nac yn cael effaith niweidiol ar iechyd pobl. Lle bynnag y bo modd, rydym am annog dulliau rheoli plâu cynaliadwy sy'n gwella amrywiaeth y DU.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn (y CGC) ar gyfer y defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid yn disodli Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 2013 y DU (CGC 2013). Mae'r CGC yn cwmpasu'r DU gyfan ac mae pob un o lywodraethau'r DU yn rhannu'r uchelgais lefel uchel a'r nodau allweddol. Mae'n tynnu sylw at y ffordd y bydd y llywodraethau ledled y DU yn helpu pawb sy'n defnyddio plaleiddiaid dros y pum mlynedd nesaf i ddatblygu dulliau mwy cynaliadwy o ddiogelu cnydau, rheoli amwynder, a rheoli plâu yn yr ardd. Nod y CGC yw cynyddu'r defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig a diogelu cnydau, yn unol â Chynllun Amgylchedd 25-mlynedd Defra, Polisi Adnoddau Naturiol Gweinidogion Cymru, Strategaeth yr Amgylchedd yr Alban a Strategaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i ddiogelu a gwella'r amgylchedd i genedlaethau'r dyfodol. Caiff y CGC ei gyflwyno i gefnogi targedau Llywodraethau ledled y DU ynglŷn â bioamrywiaeth a charbon sero net.

Mae'r CGC yn ymestyn i nifer o feysydd polisi lle mae cyfrifoldebau wedi'u datganoli, ac yn esbonio ble mae polisiau neu ddulliau cyflawni yn wahanol. Mae trefniadau cydgysylltu ar waith er mwyn sicrhau y gwneir yr un penderfyniadau lle bo hynny'n ddymunol, er enghraifft mae'n fuddiol lleihau'r adegau pan fydd gwahanol rannau o'r DU yn awdurdodi plaleiddiaid gwahanol.

Nod lefel uchel y CGC yw **lleihau risgiau ac effeithiau plaleiddiaid i'r eithaf o ran iechyd pobl a'r amgylchedd, a sicrhau y caiff plâu[1] ac ymwrthedd i blaleiddiaid eu rheoli'n effeithiol.**

[1] Diffinnir y term “plaleiddiad” isod, ac mae'n cynnwys chwyn a chlefydau planhigion.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae'r CGC yn canolbwyntio ar bum nod allweddol:

1. **Sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio cadarn yn parhau er mwyn diogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd;**
2. **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig;**
3. **Sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy;**
4. **Helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlaleiddiaid drwy bennu targedau clir erbyn diwedd 2022, a gwella metrigau a dangosyddion;**
5. **Sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i gyflawni nodau'r CGC.**

Rhoddir rhagor o fanylion am y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob un o'r nodau hyn isod.

1. **Sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio cadarn yn parhau er mwyn diogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd**

- ***Byddwn yn gweithio o fewn ein fframwaith rheoleiddio presennol ac yn ei ddatblygu er mwyn gwneud y system yn symlach i ddefnyddwyr a chadw lefelau diogelu iechyd a'r amgylchedd ar yr un pryd.***
- ***Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio plaleiddiaid ledled y DU yn hyrwyddo arloesedd a newid cadarnhaol.***
- ***Byddwn yn adolygu'r ffordd y rheoleiddir bioblaleiddiaid, er mwyn annog mwy o ddefnydd ohonynt fel rhan o ddulliau Rheoli Plâu Integredig.***

Wrth i'r cyfnod pontio ddod i ben, mae'n bwysig bod y fframweithiau deddfwriaethol cadarn sy'n cefnogi prosesau cynhyrchu bwyd ac sy'n diogelu pobl a'r amgylchedd yn parhau ar waith. Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael er mwyn datblygu ein system reoleiddio a hefyd barhau i ddilyn yr egwyddor ragofalus pan fo ansicrwydd ynghylch lefelau risg. Rydym am i'n gweithdrefnau rheoleiddio edrych i'r dyfodol, diogelu iechyd a'r amgylchedd yn drwyadl ac ymateb i'r pwysau newidiol a wynebir gan ffermwyr, y sector amwynder a defnyddwyr plaleiddiaid amatur. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni barhau i weithio er mwyn deall y wyddoniaeth sy'n sail i'n gweithdrefnau rheoleiddio yn llawn, a'r ffordd y byddant yn rhyngweithio â thechnolegau arloesol. Rydym hefyd am ystyried ym mha fodd y gallwn roi ein trefniadau rheoleiddio arwaith mewn ffordd symlach a mwy ymatebol heb wanhau'r diogelwch a roddir.

2. **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig**

- ***Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod pob defnyddiwr plaleiddiaid yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arno i integreiddio dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llawn yn eu priod systemau er mwyn sicrhau y defnyddir plaleiddiaid mewn ffordd gynaliadwy, fel rhan o system reoli wedi'i thargedu ac wedi'i hintegreiddio.***

- ***Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau Rheoli Plâu Integredig sy'n rhoi'r cyfle mwyaf posibl i ddiogelu neu wella'r amgylchedd a pharhau i ddiogelu cnydau ar yr un pryd.***

Nod dulliau Rheoli Plâu Integredig yw arallgyfeirio'r ffordd y diogelir cnydau a lleihau'r defnydd o blaleiddiaid drwy ddefnyddio dulliau amgen a hyrwyddo prosesau naturiol. Nod Rheoli Plâu Integredig yw gwneud y defnydd gorau posibl o blaleiddiaid a'u targedu'n fwy penodol os yw dulliau anghemegol yn aneffeithiol neu os nad ydynt ar gael. Byddwn yn defnyddio'r systemau presennol i gyflwyno cymorth Rheoli Plâu Integredig i bob sector, er enghraifft drwy ddiweddaru egwyddorion Rheoli Plâu Integredig yn hyfforddiant BASIS yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw un sy'n rheoli plaleiddiaid, yn eu defnyddio, yn eu gwerthu neu sy'n cynghori ar ddiogelu planhigion neu blaleiddiaid wedi cael hyfforddiant priodol i integreiddio eu mesurau rheoli plâu yn llawn. Bydd cynlluniau ffermio cynaliadwy newydd ym mhedair gwlad y DU yn ceisio ymgorffori egwyddorion Rheoli Plâu Integredig fel y caiff ffermwyr a rheolwyr tir eu helpu i fynd ati mewn ffordd gynaliadwy i reoli plâu. Hefyd, byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o helpu ffermwyr a thyfwyr, defnyddwyr amwynder a defnyddwyr amatur i fabwysiadau dulliau Rheoli Plâu Integredig, gan weithio gydag amrywiaeth eang o gynghorwyr a ariennir gan y Llywodraeth a grwpiau rhanddeiliaid i ddatblygu rhwydweithiau, a chyngor ac arweiniad hygyrch.

3. **Sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy**

- ***Byddwn yn ceisio gwella'r system orfodi ar gyfer plaleiddiaid, gan wirio busnesau dethol yn amlach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.***

- ***Byddwn yn sicrhau y caiff unigolion eu hatal rhag prynu plaleiddiaid sydd wedi'u hawdurdodi at ddefnydd proffesiynol os nad yw'r defnyddiwr terfynol wedi cael hyfforddiant priodol na'i ardystio, a byddwn yn ystyried deddfu i gyflwyno gofynion cynyddol ar adeg gwerthu os bydd angen.***

- ***Byddwn yn sicrhau bod plaleiddiaid sydd wedi'u dosbarthu at ddefnydd gweithwyr proffesiynol yn parhau i gael eu defnyddio'n gywir fel y bydd risgiau i'r amgylchedd yn cael eu lleihau i'r eithaf ac y bydd risgiau i iechyd pobl yn cael eu hosgoi.***

- ***Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo negeseuon clir i ddefnyddwyr amatur er mwyn eu hannog i ddefnyddio dulliau amgen anghemegol lle bynnag y bo modd a byddwn yn rhoi gwell cyngor ar storio a gwaredu plaleiddiaid yn ddiogel.***

I'r rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy. Ers y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwethaf, a gyhoeddwyd yn 2013, mae hyfforddiant a safonau plaleiddiaid yn y sector amaethyddol wedi parhau i ddatblygu, a welir mewn cynnydd yn nifer y bobl sydd wedi cael hyfforddiant proffesiynol BASIS ac sydd ar Gofrestr Genedlaethol Gweithredwyr Chwistrellwyr (gweler Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 2). Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth o gynnydd yn y sector amwynder a'r sector amatur. Mae'r CGC hwn yn nodi sut y byddwn yn helpu pob ffermwr a thyfwr, y sector amwynder a defnyddwyr amatur i fabwysiadu egwyddorion Rheoli Plâu Integredig drwy well hyfforddiant a dulliau cyfathrebu penodol. Pan fydd yn rhaid defnyddio plaleiddiaid, byddwn yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn gwybod sut y gellir eu defnyddio a'u gwaredu'n ddiogel.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi recriwtio nifer o Swyddogion Gorfodi Plaleiddiaid penodol ychwanegol– yn ddiweddar, a fydd yn gyfrifol am arolygu busnesau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau ynglŷn â phlaleiddiaid yn unol â'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid dros y 12 mis nesaf i ddatblygu a gwella ein system orfodi, gan sicrhau bod arolygiadau yn targedu'r meysydd lle ceir y risg fwyaf ac yn lleihau beichiau ar fusnesau hyd y gellir.

4. **Helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlaleiddiaid drwy bennu targedau clir erbyn diwedd 2022, a gwella metrigau a dangosyddion.**

- ***Byddwn yn pennu set o dargedau clir i gefnogi'r broses o leihau'r risg sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid erbyn diwedd 2022.***

- ***Byddwn yn sicrhau bod polisi ar blaleiddiaid yn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau presennol ynghylch bioamrywiaeth a dŵr.***

- ***Byddwn yn datblygu metrigau gwell ar gyfer mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig a dangosyddion amgylcheddol wedi'u diweddaru ar gyfer plaleiddiaid er mwyn darparu llinell sylfaen addas y gallwn bennu targedau lleihau priodol yn ei herbyn.***

Mae'n bwysig ein bod yn nodi proses glir o fonitro cynnydd yn erbyn y CGC. Gan weithio gydag eraill, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein dangosyddion ac yn pennu llinell sylfaen gadarn y byddwn yn mesur cynnydd yn ei herbyn. Mae'r gwaith hwn wedi'i anelu at ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i bennu targed ystyrlon i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid.

5. **Sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i gyflawni nodau'r CGC**

- ***Adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r CGC er mwyn hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid a dulliau Rheoli Plâu Integredig. Byddwn yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r diwydiant.***

Mae sicrhau'r defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid a'r defnydd mwyaf posibl o ddulliau Rheoli Plâu Integredig yn dasg gymhleth sy'n gofyn am gyfraniad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y CGC. Byddwn yn adolygu'r trefniadau cyffredinol i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i gyflwyno'r CGC ac yn ystyried strwythur priodol er mwyn sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar yr amcanion a'r targedau a bennwyd.

## 2.2 Diffiniadau o Dermau

### 2.2.1 Plâu

Mae'r term 'plâu' yn cwmpasu infertebratau, clefydau, a chwyn. Mae hyn yn cynnwys pryfed, molysgiaid, nematodau, arachnidau, ffyngau, feirysau, bacteria, planhigion ac unrhyw organeb sy'n cael effaith niweidiol ar iechyd planhigion a driniwyd neu a ddymunir, cynhyrchion a driniwyd, neu sy'n cael effaith negyddol ar dir a reolir neu seilwaith amwynder.

### 2.2.2 Pla cwarantin

Pla cwarantin yw pla a all achosi niwed economaidd i ardal nad yw eto wedi mudo iddi, neu sy'n bresennol ond nad yw wedi'i ddosbarthu'n eang ac sy'n cael ei reoli'n swyddogol.

### 2.2.3 Plaleiddiaid

Defnyddir y term 'plaleiddiad' wrth gyfeirio at amrywiaeth o gynhyrchion cemegol a biolegol a ddefnyddir i ladd neu reoli organebau byw megis pryfed, clefydau a phlanhigion. Mae'r ddogfen hon ond yn berthnasol i gynhyrchion a gwmpesir o dan y Rheoliadau Diogelu Planhigion (CE 1107/2009). Mae plaleiddiaid yn cynnwys cynhyrchion sy'n:

- Diogelu rhag ymosodiad uniongyrchol gan organebau niweidiol;
- Dylanwadu ar brosesau bywyd planhigyn, heblaw fel maethyn neu fio-ysgogydd planhigyn;
- Gwarchod cynhyrchion planhigion;
- Dinistrio planhigion annymunol neu rannau annymunol o blanhigion;
- Atal twf planhigion nas dymunir.

Mae'r CGC yn cwmpasu cynhyrchion plaleiddiaid a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol, garddwriaethol, amwynder neu amatur. Yn y ddogfen hon:

- Defnyddir y termau 'plaleiddiad/plaleiddiaid' a 'cynhyrchion diogelu planhigion' yn gyfnewid am ei gilydd;
- Mae'r termau 'plaleiddiad/plaleiddiaid cemegol' yn cyfeirio at gynhyrchion diogelu planhigion sydd â chyfrwng cemegol fel y sylwedd actif;
- Bioblaleiddiaid yw cynhyrchion diogelu planhigion sy'n cynnwys cyfryngau rheoli biolegol, gan gynnwys: cynhyrchion sy'n seiliedig ar fferomonau a semiogemegion; cynhyrchion sy'n cynnwys micro-organebau (bacteria, ffyngau, feirysau ac ati); a chynhyrchion sy'n seiliedig ar rin planhigion.

### 2.2.4 Ymwrthedd i blaleiddiaid

Mae ymwrthedd i blaleiddiaid yn digwydd pan fydd plaleiddiad a fu'n effeithiol gynt yn mynd yn llai tebygol o effeithio ar bla. Er y gall ymwrthedd ddigwydd mewn ymateb i ddulliau rheoli anghemegol a dulliau rheoli drwy fioblaleiddiaid, mae ei ddatblygiad yn

bennaf yn gysylltiedig â phwysau dethol cynyddol i reoli'n gemegol o ganlyniad i amlygiad mynych. Mae datblygu ymwrthedd yn achos pryder cynyddol gan y bydd y lleihad diweddar yn nifer y plaleiddiaid a gymeradwyir yn arwain at sefyllfa lle mae plâu yn cael eu hamlygu i lai o blaleiddiaid, ac ystod gulach o ddulliau gweithredu, gan gynyddu pwysau datblygu ymwrthedd ymhellach.

### 2.2.5 Rheoli Plâu Integredig

Diffinnir Rheoli Plâu Integredig fel defnydd cyfunol o'r holl ddulliau rheoli sydd ar gael, gan gynnwys defnydd wedi'i dargedu o'r plaleiddiaid a ddefnyddir os yw dulliau amgen yn aneffeithiol neu os nad oes unrhyw ddulliau amgen ar gael. Mae Rheoli Plâu Integredig yn pwysleisio iechyd cnydau a tharfu ar y system amaethecolegol cyn lleied â phosibl. Mae Rheoli Plâu Integredig hefyd yn cynnwys mesurau i wneud y defnydd gorau posibl o blaleiddiaid, gyda'r nod o leihau effeithiau ar unrhyw beth nas targedir ac amlygiad amgylcheddol diangen.

Mae Rheoli Plâu Integredig yn dilyn dull cam wrth gam (a nodir isod ac yn Ffigur 1) ac yn ymarferol, mae'n rhaid iddo gael ei deilwra'n unigol.

**1. Atal**

Y llinell gyntaf o ran rheoli plâu yw'r defnydd o ddulliau amaethu ataliol i leihau'r risg o ddifrod o ganlyniad i blâu, megis cylchdroi cnydau, tyfu amrywogaethau sy'n gwrthsefyll plâu, dewis safleoedd priodol, glanweithdra, arferion trin a hau, ac annog ysglyfaethwyr naturiol. Mae'r mesurau hyn yn cynnig dull rheoli plâu proffylactig heb fawr ddim risg amgylcheddol, os o gwbl.

**2. Monitro**

Mae Rheoli Plâu Integredig yn seiliedig ar fonitro effeithiol, gan gynnwys archwilio, adnabod, rhagweld ac asesu lefelau poblogaethau o blâu. Nid oes angen rheoli pob math o bryfed, chwyn nac organebau byw eraill a allai fod yn niweidiol o bosibl, a gall organebau sydd wedi'u dosbarthu'n blâu fod yn bwysig i strwythur a gweithrediad ecosystemau lleol. Fel y cyfryw, mae arsylwi rheolaidd yn hollbwysig. Drwy adnabod y pla yn gywir, gellir penderfynu ar y dull rheoli cywir. Mae monitro effeithiol yn sicrhau mai dim ond pan fo angen hynny y defnyddir plaleiddiaid, ond hefyd y caiff y plaleiddiad cywir ei ddewis a'i ddefnyddio yn y ffordd gywir ar yr adeg gywir.

**3. Trothwyon**

Mae gan rai plâu drothwyon rheoli. Pennir trothwyon ac uwchlaw'r trothwyon hynny bydd lefelau poblogaethau o blâu neu ddifrod o ganlyniad i blâu yn mynd yn anghynaliadwy, yn economaidd neu'n amgylcheddol. Pan eir y tu hwnt i drothwy, cymerir camau i reoli'r pla. Mae'r pwyslais ar reoli yn hytrach na difa, oherwydd drwy adael i boblogaeth o bla oroesi ar lefelau rhesymol gall hynny nid yn unig ddarparu bwyd i ysglyfaethwyr naturiol ond hefyd helpu i atal ymwrthedd rhag datblygu drwy leihau amlygiad plâu i blaleiddiaid.

**4. Rheoli**

Dylid dewis y dulliau o reoli plâu yn seiliedig ar effeithiolrwydd a risg, gyda'r nod o leihau dibyniaeth ar blaleiddiaid. Gellir dewis dulliau rheoli drwy'r hierarchaeth ganlynol:

- *Mecanyddol* – gan gynnwys chwynnu â llaw/dadwreiddio, chwynnu mecanyddol, rhwystrau ffisegol a sugno.


- *Biolegol* – gall prosesau a deunyddiau biolegol naturiol reoli plâu, yn aml gyda llai o risg i'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau ysglyfaethus, technegau pryfed diheintiedig, bioblaleiddiaid, a thechnegau tarfu ar fridio. Mae'n bwysig cydnabod nad yw bioblaleiddiaid yn achosi llai o risg i'r amgylchedd o reidrwydd ac, fel y cyfryw, dylid hefyd eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol ac wedi'i thargedu.

- *Cemegol* – dim ond os yw'r dulliau amgen yn aneffeithiol neu os nad oes unrhyw ddulliau amgen ar gael y dylid defnyddio plaleiddiaid cemegol. Pan gânt eu defnyddio, dylid eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac wedi'i thargedu, er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol i'r eithaf. Bydd y defnydd o dechnoleg fanwl, triniaethau mewn mannau penodol, *weed wipers*, lleihau drifftio, ac offer a thechnegau tebyg eraill yn helpu o ran hynny. Dylid defnyddio strategaethau atal ymwrthedd.

**5. Adolygu**

Mae'n bwysig adolygu llwyddiant pob mesur diogelu planhigion a rheoli plâu yn rheolaidd er mwyn gallu asesu effeithiolrwydd, addasu a theilwra at bob sefyllfa.

**Ffigur 1.** Rheoli Plâu Integredig: Dull 5 cam o reoli plâu.



## 2.3 Cefndir

Mae plaleiddiaid yn elfen annatod o brosesau cynhyrchu bwyd y DU ac maent yn diogelu planhigion ac yn rheoli llystyfiant er mwyn rheoli plâu estron goresgynnol a phlâu brodorol. Fodd bynnag, dylanwedir ar arferion diogelu cnydau yn gynyddol gan benderfyniadau i dynnu plaleiddiaid yn ôl a chyfyngu ar blaleiddiaid, datblygiad ymwrthedd plâu, prinder cynhyrchion ar gyfer y tymor tyfu, a'r angen o hyd i gynhyrchu cnydau drwy ddefnyddio dulliau sy'n achosi'r risg isaf bosibl i'r amgylchedd a dim effeithiau niweidiol ar iechyd pobl. Lle bynnag y bo modd, rydym am annog dulliau rheoli plâu cynaliadwy sy'n gwella amrywiaeth y DU.

Wrth i ni bennu ein llwybr cenedlaethol ein hunain ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, mae'n rhaid i ni gynnal a gwella lefelau diogelu cadarn ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'n rhaid i ni hefyd geisio bod yn fwy uchelgeisiol yn unol â nodau Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd Defra, Polisi Adnoddau Naturiol Gweinidogion Cymru, Strategaeth yr Amgylchedd yr Alban a Strategaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. Mae'n rhaid i'n camau gweithredu hefyd ystyried yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â diogelu a gwella bioamrywiaeth, yn ogystal â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd o ran allyriadau carbon a gynhyrchir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o reoli plâu, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd ar bwysau plâu. Fel y cyfryw, mae llywodraethau'r DU yn cydnabod yr angen i weithredu'n gyflym er mwyn lleihau allyriadau carbon yn ogystal â llygryddion, a bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau wrth gymhwyso'r CGC drwy ystyried nodau Strategaeth Twf Glân y DU gyfan a phriod strategaethau bioamrywiaeth.

Cyhoeddwyd y CGC cyntaf yn 2013 a bu'n fodd i atgyfnerthu'r safonau uchel presennol mewn perthynas â'r canlynol:

- gwybodaeth a phroffesiynoldeb defnyddwyr plaleiddiaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o blaleiddiaid;
- gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd;
- monitro effeithiau ar iechyd pobl yn effeithiol;
- diogelu cyrff dŵr ac ardaloedd sensitif eraill;
- mabwysiadu dulliau integredig.

Yn ôl dangosyddion CGC 2013, mae'r cynnydd ers 2013 wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r dystiolaeth yn dangos cryn gydymffurfiaeth â mesurau rheoleiddio, cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymgymryd â hyfforddiant proffesiynol (gweler Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 2) a welir drwy gynnydd mewn aelodaeth o BASIS a NRoSO, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n mabwysiadu cynlluniau Rheoli Plâu Integredig (gweler Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 3). Mae'r data a gasglwyd ers y CGC diwethaf yn dangos lefelau cyson isel o blaleiddiaid mewn bwyd a gynhyrchir yn y DU (Atodiad 1 – Tabl 1, is-bennawd 5.3), sydd hefyd yn awgrymu y dilynir rheoliadau ac amodau awdurdodiadau plaleiddiaid. Mae canlyniadau'r dangosyddion amgylcheddol yn fwy amrywiol (Atodiad 1 – Tabl 1, Penawdau 7 ac 8); Er bod achosion o lygru difrifol yn y tair blynedd diwethaf wedi parhau'n

gyson isel (Atodiad 1 – Tabl 1, is-bennawd 7.5), mae poblogaethau o adar gwyllt yn gostwng ar y cyfan, (Atodiad 1 – Tabl 1, is-benawdau 8.1 ac 8.2) ond ni ellir cysylltu hyn â'r defnydd o blaleiddiaid yn unig. Yn gyffredinol, bu cynnydd tuag at y defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid ers CGC 2013 ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn wynebu heriau newydd a pharhaus, ac mae angen mwy o ddata i ddeall sut mae newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr plaleiddiaid yn effeithio ar ganlyniadau amgylcheddol.

Gyda'r CGC, rydym yn cael cyfle i fynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn tystiolaeth a gweithio gyda'n gilydd ledled y DU i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr plaleiddiaid, y cyhoedd a'r amgylchedd. Mae llywodraethau'r DU a thu hwnt yn glir bod yn rhaid i ni leihau dibyniaeth ar blaleiddiaid cemegol a gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddulliau risg is amgen er mwyn diogelu'r amgylchedd yn well, lleihau risgiau ymwrthedd i blaleiddiaid a diogelu cnydau a seilwaith. Felly, mae datblygu a hyrwyddo dulliau Rheoli Plâu Integredig yn ganolog i'r uchelgais a rennir gennym.

Uchelgais lefel uchel CGC 2020 yw **lleihau risgiau ac effeithiau plaleiddiaid i'r eithaf o ran iechyd pobl a'r amgylchedd, a sicrhau y caiff plâu ac ymwrthedd i blaleiddiaid eu rheoli'n effeithiol.**

Mae'r CGC yn nodi ein strategaeth i wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff plaleiddiaid eu defnyddio'n gynaliadwy ym mhob sector;
- Helpu'r diwydiant amaethyddol a garddwriaethol i greu cadwyn fwyd gynaliadwy a chadarn;
- Gwrthsefyll yr ymwrthedd cynyddol i blaleiddiaid;
- Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â phlâu newydd;
- Lleihau effeithiau plaleiddiaid ar yr amgylchedd i'r eithaf, a sicrhau nad ydynt yn achosi unrhyw risg i iechyd pobl.

Mae'r camau gweithredu a nodir wedi'u cynllunio i gyflawni'r nod lefel uchel drwy ganolbwyntio ar bum nod allweddol, sef:

1. **Sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio cadarn yn parhau er mwyn diogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd;**

2. **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio dulliau Rheoli Plâu Integredig);**

3. **Sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy;**

4. **Helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlaleiddiaid drwy bennu targedau clir erbyn diwedd 2022, a gwella metrigau a dangosyddion;**

5. **Sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i gyflawni nodau'r CGC.**

Rhoddir rhagor o fanylion am y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob un o'r nodau hyn isod.

## 2.4 Nod 1 – Gwell Rheoleiddio

Mae'n flaenoriaeth gan lywodraethau'r DU i ddiogelu pobl a'r amgylchedd. Rydym yn sicrhau hyn drwy sylfaen reoleiddio sy'n datblygu'n unol â thystiolaeth wyddonol, a gefnogir gan fesurau gan y llywodraethau a chan eraill i ddatblygu a hyrwyddo arferion da. Rydym hefyd am ystyried ym mha fodd y gallwn roi ein trefniadau rheoleiddio ar waith mewn ffordd symlach a mwy ymatebol heb wanhau'r diogelwch a roddir.

Ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, bydd Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl benderfyniadau rheoliadol ar blaleiddiaid ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys penderfyniadau a wneir ar hyn o bryd gan yr UE, gan gynnwys cymeradwyo sylweddau actif a Lefelau Gweddillion Uchaf[2]. Caiff fframwaith deddfwriaethol presennol yr UE ei gadw yn y gyfraith genedlaethol, gyda'r cyfryw gywiriadau ag sydd eu hangen i sicrhau ei fod yn gweithio'n synhwyraidd mewn cyd-destun cenedlaethol. Ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, bydd rhwymedigaeth arnom i ystyried y fframwaith cyfraith a pholisi fydd yn diwallu ein hanghenion orau, a chawn gyfle i wneud hynny. Wrth wneud hynny, byddwn yn cadw'r mesurau diogelu presennol ac yn seilio ein gweithgarwch rheoleiddio ar y wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael. Mae'r sefyllfa yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, oherwydd y Cytundeb Ymadael â'r UE a Phrotocol Gogledd Iwerddon sy'n pennu y bydd deddfwriaeth benodol yr UE ynglŷn â phlaleiddiaid (Rheoliadau 1107/2009 a 396/2005 yr UE yn benodol) yn parhau'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Ein camau rheoleiddio allweddol er mwyn **sicrhau bod mesurau rheoleiddio cadarn yn parhau i ddiogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd** yw:

- ***Gweithio o fewn ein fframwaith rheoleiddio presennol a'i ddatblygu er mwyn gwneud y system yn symlach i ddefnyddwyr a chadw lefelau diogelu iechyd a'r amgylchedd ar yr un pryd.***

- ***Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio plaleiddiaid ledled y DU yn hyrwyddo arloesedd a newid cadarnhaol;***

- ***Adolygu'r ffordd y rheoleiddir bioblaleiddiaid, er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r rhain fel rhan o ddulliau Rheoli Plâu Integredig.***

### 2.4.1 Datblygu ein system reoleiddio

Er mwyn sicrhau bod ein system reoleiddio yn diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd, byddwn yn ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y system, lle y bo modd gwneud hynny o fewn cyfyngiadau Protocol Gogledd Iwerddon. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i symleiddio prosesau, lle nad yw hyn yn ymyrryd â'r angen pennaf am

[2] Disgwylir i Fil Marchnad Fewnol y DU, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, gyflwyno darpariaethau cydnabyddiaeth gilyddol ychwanegol a fydd yn gymwys i'r lefelau gweddillion uchaf.

ddiogelwch, drwy nodi cyfleoedd i'r DU deilwra ei pholisïau, a thrwy ddileu anghysondebau ac oedi yn y broses a weithredir gan yr UE.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd ein system reoleiddio yn helpu pob defnyddiwr plaleiddiaid proffesiynol ym mhob sector i fynd i'r afael â'r pwysau newidiol a wyneba, a chynnal lefelau uchel o ddiogelwch o ran yr amgylchedd a lleihau'r risgiau ymhellach mewn meysydd lle ceir ansicrwydd, yn unol â'r egwyddor ragofalus.

Byddwn yn sicrhau bod y lefelau uchel presennol o ddiogelwch rhag risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid yn parhau a bod dulliau asesu risg yn cael eu diweddaru er mwyn adlewyrchu datblygiadau ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac adeiladu ar ein hamrywiaeth eang bresennol a arbenigedd a phrofiad o asesu a rheoli risg, a'r ffordd y caiff y rhain eu rhoi ar waith yn ymarferol. O ran iechyd pobl, bydd asesiadau risg yn parhau i gwmpasu pawb sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â phlaleiddiaid a bioblaleiddiaid neu eu gweddillion, gan gynnwys y rhai sy'n taenu plaleiddiaid, y rhai sy'n gweithio ar ardaloedd a driniwyd, ac wrth ymyl ardaloedd a driniwyd, a defnyddwyr cynhyrchion a driniwyd. O ran iechyd yr amgylchedd, bydd asesiadau risg yn ystyried effeithiau eang o bosibl plaleiddiaid ar yr amgylchedd, gyda ffocws penodol ar yr effeithiau ar ecosystemau dyfrol, adar gwyllt, pryfed peillio, ac iechyd pridd. Rydym yn datblygu ein metrigau a'n sylfaen dystiolaeth o hyd er mwyn deall a lleihau'r risg i'r amgylchedd.

Defnyddir plaleiddiaid fel rhan o ymgyrchoedd difa rhag plâu cwarantin a phlâu estron goresgynnol amaethyddiaeth, garddwriaeth a'r amgylchedd. Bydd y system reoleiddio ar gyfer plaleiddiaid yn parhau i gefnogi defnyddiau o'r fath drwy gydbwyso risgiau a buddiannau rheoli plâu cwarantin a phlâu estron goresgynnol.

Mae trafodaethau diweddar â rhanddeiliaid wedi dangos, er bod cryn ymddiriedaeth yn y gweithdrefnau rheoleiddio i ddiogelu iechyd rhag effeithiau plaleiddiaid, nad yw hyn yn wir am bawb. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r trafodaethau hyn i wella'r dull o gyfathrebu â phob parti â diddordeb, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- Targedu gohebiaeth a chyngor ar ddiogelwch rhag risgiau plaleiddiaid i iechyd er mwyn adlewyrchu anghenion cynulleidfaoedd gwahanol;
- Sicrhau bod gwybodaeth yn fwy tryloyw am y ffyrdd y defnyddir gwahanol ffynonellau o dystiolaeth i lywio penderfyniadau rheoleiddio;
- Sicrhau y parheir i ymdrin â thystiolaeth ansicr neu anghyson drwy arfer y dull rhagofalus.

## 2.4.2 Ymchwil a datblygu i gefnogi gweithdrefnau rheoleiddio

Mae gan dechnolegau a dulliau arloesol megis data mawr, deallusrwydd artiffisial, roboteg, synhwyro o bell a thechnegau bridio planhigion newydd y potensial i drawsnewid y ffordd rydym yn rheoli plâu. Mae llywodraethau'r DU yn awyddus i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu'r technolegau hyn o ran plaleiddiaid. Felly, byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i

sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio plaleiddiaid ledled y DU yn hyrwyddo arloesedd a newid cadarnhaol.

Bydd y gefnogaeth hon hefyd yn cynnwys y gwaith ymchwil sydd ei angen i sicrhau bod trefniadau rheoleiddio Prydain Fawr ar gyfer plaleiddiaid yn parhau i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod y risgiau a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid yn cael eu deall a'u rheoli mewn ffordd gymesur ac yn seiliedig ar y ddealltwriaeth a'r egwyddorion gwyddonol diweddaraf.

Dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ymchwil wyddonol ymhellach yn y meysydd allweddol canlynol, gan sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei ddatblygu i ystyried arloesedd a newid. Bydd hyn yn cwmpasu'r canlynol:

- technolegau newydd i daenu plaleiddiaid;
- methodolegau asesu risg newydd, gan gynnwys at ddiben cynnal cyn lleied o brofion ar anifeiliaid â phosibl;
- ymwrthedd i blaleiddiaid;
- adolygu trefniadau asesu risg amgylcheddol ar gyfer bioblaleiddiaid;
- datblygu a mireinio ymhellach y gwaith o asesu risgiau i iechyd pobl sy'n dod i gysylltiad â phlaleiddiaid, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hamlygu'n anuniongyrchol drwy fwyta gweddillion mewn bwyd, ac effeithiau cyfunol cymysgeddau cemegol;
- gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod dulliau asesu risg yn cyflawni nodau amlygu a diogelu penodol Prydain Fawr, gan asesu risgiau i ddŵr a'r ecosystem ddyfrol yn well (gan gynnwys iechyd pryfed peillio a phriddoedd), a risgiau i iechyd pobl sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid.

Er mwyn cyflawni'r agenda ymchwil uchelgeisiol hon, byddwn yn sefydlu fframweithiau newydd i gydweithio â phartneriaid o'r holl asiantaethau llywodraethol sy'n gyfrifol am amaethyddiaeth, rheoleiddio, a diogelu'r amgylchedd naturiol.  Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau cefnogaeth a chyfraniad amrywiaeth eang o randdeiliaid.

### 2.4.3 Rheoleiddio Bioblaleiddiaid

Mae'r defnydd o fioblaleiddiaid yn cefnogi dulliau Rheoli Plâu Integredig a gall gynnig nifer o fuddiannau, gan gynnwys llai o effaith ar rai organebau nas targedwyd a phobl, rheoli ymwrthedd, a lleihau gweddillion mewn bwyd i'r eithaf. Ac eto, mae bioblaleiddiaid yn fwy costus i ddefnyddwyr fel arfer, ac yn gofyn am fwy o ganllawiau technegol penodol, er enghraifft ar storio a defnyddio. Mae'n bwysig nodi nad yw bioblaleiddiaid yn achosi llai o risg i iechyd pobl na'r amgylchedd o reidrwydd ac, fel y cyfryw, dylent gael eu hasesu a'u defnyddio gyda'r un gofal ag a ddefnyddir ar gyfer plaleiddiaid cemegol.

Mae llywodraethau'r DU, hyd yma, wedi mynd ati i annog y gwaith o ddatblygu a chofrestru bioblaleiddiaid drwy'r Cynllun Bioblaleiddiaid. Cyflwynwyd y cynllun yn 2006 ac mae'n cwmpasu tri dosbarth o gynhyrchion plaleiddiaid ar hyn o bryd: semiogemegion (megis fferomonau), micro-organebau a rhywogaethau llysieuegol (megis rhin planhigion). Adolygwyd y cynllun yn 2013 a gwnaed sawl newid er mwyn cryfhau'r pecyn presennol. Mae nifer gronnol y bioblaleiddiaid a gofrestrir yn fetrig allweddol rydym yn parhau i'w fonitro er mwyn mesur llwyddiant (Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 6).

Mae angen mwy o gyngor a chymorth ynglŷn â defnyddio bioblaleiddiaid i ddefnyddwyr plaleiddiaid. Er mwyn cynyddu'r galw a hyrwyddo'r broses o ddatblygu bioblaleiddiaid newydd, mae'n rhaid i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'u buddiannau a'u risgiau. Byddwn yn parhau i weithredu'r Cynllun Bioblaleiddiaid a chwilio am gyfleoedd i'w ehangu a'i wella, yn ogystal â helpu defnyddwyr i gael y cyngor sydd ei angen arnynt i'w ddefnyddio gyda hyder.

Hefyd, byddwn yn adolygu canlyniadau prosiectau a ariennir gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, gan gynnwys: Taenu a Rheoli Bioblaleiddiaid er Effeithlonrwydd a Dibynadwyedd (AMBER); a Diogelu Cnydau a'r Amgylchedd yn Gynaliadwy – Ymchwil wedi'i Thargedu ar gyfer Cnydau Bwytadwy (SCEPTREplus), ar wella perfformiad cynhyrchion bioblaleiddiaid a chyflymu'r broses o brofi a chyflwyno cynhyrchion biobladdeidiaid newydd ar y farchnad.

## 2.5 Cwestiynau ar Nod 1 – Gwell Rheoleiddio

**Cwestiwn 1** – Yng nghyd-destun cynnal y lefelau uchel presennol o ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd, beth y gallwn ei wneud i wneud y system reoleiddio ar gyfer plaleiddiaid yn symlach ac yn fwy effeithlon?

**Cwestiwn 2** – Beth y gallem ei wneud i wella tryloywder ynghylch y ffordd y defnyddir tystiolaeth i lywio penderfyniadau ar reoleiddio plaleiddiaid?

**Cwestiwn 3** – Beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod ein systemau rheoleiddio yn ymateb i arloesedd a datblygiadau gwyddonol, gan gynnwys technolegau newydd?

**Cwestiwn 4 –** Pa gamau y gallem eu cymryd i ehangu ar y Cynllun Bioblaleiddiaid presennol a'i wella, er mwyn sicrhau bod mwy o gynhyrchion bioblaleiddiaid cymeradwy ar gael a rhoi gwell cymorth i ddarpar ddefnyddwyr?

**Cwestiwn 5 –** Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwil er mwyn deall effeithiau newidiadau mewn gweithgarwch rheoleiddio yn well?

**Cwestiwn 6** – Pa awgrymiadau eraill sydd gennych i wella'r system reoleiddio ar gyfer plaleiddiaid?

## 2.6 Nod 2 – Hyrwyddo'r Defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig

Nod dulliau Rheoli Plâu Integredig yw cyfyngu ar y ddibyniaeth ar blaleiddiaid cemegol, gan leihau defnydd diangen, risgiau o effeithiau niweidiol o ganlyniad i amlygiad i blaleiddiaid i bobl a'r amgylchedd, a datblygiad ymwrthedd i blaleiddiaid. Drwy hyrwyddo systemau lle mae'r angen am blaleiddiaid yn cael ei leihau'n hanfodol, mae pedair gweinyddiaeth y DU yn anelu ar y cyd at leihau effeithiau negyddol plaleiddiaid i'r eithaf a, dros amser, leihau'r defnydd o blaleiddiaid, yn unol â nodau Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd Defra ac uchelgeisiau'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys bioamrywiaeth a thargedau sero net.

Er i lawer o ddulliau Rheoli Plâu Integredig gael eu datblygu ar gyfer defnyddiau amaethyddol a garddwriaethol i ddechrau, dylai dulliau Rheoli Plâu Integredig hefyd gael eu defnyddio ym maes coedwigaeth, gerddi, cadwraeth, a'r sector amwynder. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi pob ffermwr, rheolwr tir, garddwr a defnyddiwr amwynder i dderbyn dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llawn. Rydym yn cydnabod y bydd y mwyafrif yn defnyddio elfennau penodol o ddulliau Reoli Plâu Integredig i ryw raddau, ond mae'r dystiolaeth yn dangos bod prinder gwybodaeth yn rhwystr mawr i fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig a bod rhai ffermwyr yn credu eu bod yn risg uchel o ran diogelu eu cnydau a'u henillion ariannol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gynyddu faint o bobl sy'n eu mabwysiadu er mwyn lleihau risgiau amgylcheddol, brwydro yn erbyn ymwrthedd, a chynyddu ymwrthedd dulliau diogelu cnydau i newid ym mhob sector perthnasol.

Er mwyn **cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio dulliau Rheoli Plâu Integredig**, byddwn yn:

- ***Gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y bydd pob defnyddiwr plaleiddiaid yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arno i integreiddio dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llawn yn eu priod systemau er mwyn sicrhau y defnyddir plaleiddiaid mewn ffordd gynaliadwy, fel rhan o system reoli wedi'i thargedu ac wedi'i hintegreiddio.***
- ***Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau Rheoli Plâu Integredig sy'n rhoi'r cyfle mwyaf posibl i ddiogelu neu wella'r amgylchedd a pharhau i ddiogelu cnydau ar yr un pryd.***

Yn yr adrannau isod, rydym yn nodi sut y byddwn yn helpu ffermwyr, rheolwyr tir, defnyddwyr amatur a defnyddwyr amwynder i wneud mwy o ddefnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig drwy'r canlynol: gwella addysg, llwyfannau rhannu gwybodaeth, a dulliau cynghori; ystyried sut i wrthbwyso risgiau ariannol a allai fod yn gysylltiedig â mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig; buddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu ar opsiynau amgen ar gyfer diogelu cnydau.

Ochr yn ochr â'r ymrwymiadau hyn, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ffactorau'r farchnad sy'n ysgogi pobl i fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig ac rydym yn gweithio ym mhob rhan o'r llywodraeth, gan nodi cyfleoedd i gynyddu'r galw am ddulliau Rheoli Plâu Integredig ym mhob sector perthnasol.

### 2.6.1 Gwella addysg, cyfnewid gwybodaeth a chyngor

**Ffermydd arddangos**

Cydnabyddir bod cyfnewid gwybodaeth yn hanfodol i sicrhau bod defnyddwyr plaleiddiaid yn gallu cael gafael yn hawdd ar y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar y defnydd diogel a chynaliadwy o blaleiddiaid. Mae ffermydd arddangos ar flaen y gad o ran technegau ffermio, a arweinir gan ffermwyr, gan roi ymchwil ar waith, dangos enghreifftiau o arferion gorau sy'n berthnasol i'w sector a'u hardal leol, a dangos sut i ddiogelu rhannau bregus iawn o'r amaethecosystem, megis adar a phryfed peillio, yn well. Rydym yn cydnabod gwerth y ffermydd hyn o ran arwain y ffordd mewn dulliau Rheoli Plâu Integredig a chyfleu arferion gorau. Byddwn yn gweithio gyda rhwydweithiau o ffermydd arddangos i wella'r gwaith cydgysylltu a chynnig llif cyson o gyfleoedd cyfnewid gwybodaeth i dyfwyr a chynghorwyr agronomaidd.

**Astudiaeth Achos: Squab Hall Farm, Swydd Warwick – Un o ffermydd stratego y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth**

Nod y Fferm Cnydau Ŷd Strategol, sy'n rhedeg rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Medi 2024, yw canfod effaith arferion newydd ar gost cynhyrchu er mwyn cyflymu'r broses o fabwysiadu datblygiadau arloesol ffermio âr ar ffermydd masnachol. Mae'r prosiect wedi cynnwys gosod llinell sylfaen er mwyn pennu man cychwyn nifer o ddangosyddion o fewn yr amgylchedd ffermio a nifer o dreialon megis effaith gwneud defnydd llai o ffyngleiddiad ar gynnyrch amrywogaethau sydd â gwahanol raddau ymwrthedd i glefydau. Mae effaith y gwaith hyd yma yn cynnwys argymell bod ffermwyr yn defnyddio adnoddau monitro a rhagweld plâu er mwyn asesu risg a thaenu ffyngleiddiad yn briodol er mwyn hyrwyddo stiwardiaeth a mesurau atal ymwrthedd ymarferol.

**Gwasanaethau cynghori**

Mae gwasanaethau cynghori ar ffermio wedi'u datganoli ledled y DU. Eu nod yw helpu ffermwyr a thyfwyr i ddeall a bodloni gofynion Trawsgydymffurfio, Gwyrddu, yn ogystal â rhannau eraill o'r Cynllun Taliadau Sylfaenol. Diben gwasanaethau cyngor ar ffermio yw rhoi cyngor technegol a chyngor busnes ar ofynion ar gyfer diogelu dŵr a defnyddio plaleiddiaid mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys gwaith cynllunio Rheoli Plâu Integredig. Yn Lloegr, mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Ffermio yn defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys llinell gymorth (canolfan alwadau ac e-byst), gwefan, cylchlythyrau misol, erthyglau technegol a digwyddiadau.

Mae Gwasanaeth Cyngor Ar Ffermio'r Alban yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig yr Alban (2014-2020) a ariennir ar y cyd gan yr UE a Llywodraeth yr Alban, sy'n rhoi gwybodaeth ac adnoddau gyda'r nod o gynyddu proffidioldeb a chynaliadwyedd ffermydd a chrofftydd. Cwblhaodd y Bil Amaethyddiaeth (Cyfraith yr UE a ddargedwir a Data) (yr Alban) Gam 3 ar 26 Awst 2020. Drwyddo, bydd yr Alban yn gallu cyflawni'r cynigion a nodir yn ein hymgynghoriad "Stability and Simplicity" i barhau â'r rhan fwyaf o gynlluniau Polisi

Amaethyddol Cyffredin yr UE yn ystod y cyfnod pontio tan 2024. Heb gyllid yn y dyfodol ar gyfer holl gynlluniau Colofn 2 PAC, mae'n anodd paratoi ar gyfer y cynlluniau hynny yn 2021, sy'n cynnwys y System Cynghori Ffermwyr. Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i bwyso am eglurder ar y mater hwn.

Yng Nghymru, mae rhaglen Cyswllt Ffermio yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sector tir mwy proffesiynol, proffidiol a chadarn. Mae'n cynnwys rhaglen integredig o wasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a chynghori, gyda'r nod o sicrhau mwy o gynaliadwyedd, gwell cystadleurwydd a gwell perfformiad amgylcheddol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Gwasanaeth Cynghori a Gwybodaeth yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu busnesau fferm a bwyd er mwyn cysylltu perfformiad economaidd ac amgylcheddol. Rhoddir pwyslais ar gynhyrchiant, cynaliadwyedd amgylcheddol a chadernid.

Wrth i gynlluniau amaethyddol bontio o PAC felly hefyd bydd y cyngor a roddir. Mae Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig wrthi'n ystyried y ffordd orau o roi cyngor i ffermwyr a rheolwyr tir, a hynny mewn modd sy'n cefnogi ein cydamcanion yn effeithiol. Byddwn yn adolygu'r ffordd y mae gwasanaethau cynghori ar ffermio yn cyfrannu at y defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid a mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig.

**Agronomegwyr**

Mae agronomegwyr yn cynghori'n eang ar reoli cnydau ac yn aml ar benderfyniadau mwy cyffredinol ynglŷn â rheoli ffermydd hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr a thyfwyr masnachol yn seilio eu penderfyniadau diogelu cnydau ar gyngor gan agronomegwyr proffesiynol neu maent wedi ennill cymwysterau proffesiynol ym maes agronomeg eu hunain. Fel arfer, caiff agronomegwyr annibynnol eu talu'n uniongyrchol i reoli ardal o gnydau ac nid oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â gweithgynhyrchwyr amaethgemegol. Mae agronomegwyr masnachol neu agronomegwyr sy'n ddosbarthwyr yn darparu gwasanaeth a daw eu hincwm o werthu cynhyrchion, sydd yn aml yn gysylltiedig â gweithgynhyrchwyr penodol. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn cael cyngor diduedd ar Reoli Plâu Integredig a'r holl gynhyrchion diogelu cnydau sydd ar gael iddynt. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth ar y graddau y mae didueddrwydd yn effeithio ar y cyngor a roddir i ffermwyr a byddwn yn helpu'r diwydiant i ddatblygu ei fodel cynghori er mwyn helpu mwy o ffermwyr i fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig.

Er mwyn cynyddu faint o wybodaeth broffesiynol am Reoli Plâu Integredig sydd ar gael, ym mis Mehefin 2020, diwygiodd BASIS ei system bwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnwys Rheoli Plâu Integredig. Mae hwn yn gam hollbwysig tuag at helpu agronomegwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau Rheoli Plâu Integredig, gan sicrhau bod tyfwyr yn cael cyngor ar yr holl opsiynau sydd ar gael. Byddwn yn gweithio gyda BASIS er mwyn sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn helpu agronomegwyr i gynghori ar ddulliau Rheoli Plâu Integredig yn effeithiol, yn unol â nodau'r CGC hwn.

**Cynlluniau Rheoli Plâu Integredig**

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i ffermwyr yn y DU gwblhau cynllun Rheoli Plâu Integredig er mwyn cymhwyso i fod yn rhan o gynlluniau sicrwydd megis Tractor Coch, cynlluniau sicrwydd LEAF Marque a Scottish Quality Crops. Mae arwynebedd y DU a gwmpesir gan gynllun Rheoli Plâu Integredig a gwblhawyd wedi cynyddu rhwng 2014 a 2018 (Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 3). Fodd bynnag, gellid gwella eu dylanwad ymarferol ar ffermydd. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn defnyddio templed cynllun Rheoli Plâu Integredig y Fenter Wirfoddol. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r Fenter Wirfoddol i wella'r templed hwn er mwyn helpu ffermwyr i wella eu dulliau Rheoli Plâu Integredig o flwyddyn i flwyddyn a chynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth. Yn yr Alban, mae ffermwyr yn defnyddio templedi cynllun Rheoli Plâu Integredig Menter Wirfoddol yr Alban ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban.

**Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon**

Mae ein cyrff dŵr wyneb a dŵr daear yn sensitif iawn i lygredd o ganlyniad i ddefnyddio plaleiddiaid, gan gynnwys chwistrellu sydd wedi drifftio a dŵr ffo. Yn Lloegr, mae'r rhaglen Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon (CSF) yn darparu digwyddiadau hyfforddi, canllawiau a chyngor i ffermwyr a rheolwyr tir ar ddiogelu ein hamgylchedd dŵr yn well. Mae CSF wedi gostwng lefelau plaleiddiaid mewn dalgylchoedd prawf drwy ddefnyddio dull cydweithredol gwirfoddol gyda ffermwyr ac agronomegwyr, sy'n canolbwyntio ar ardaloedd â blaenoriaeth uchel a phartneriaethau â chwmnïau dŵr. Er y cyfeirir yn benodol at rôl lleihau dŵr ffo o gaeau a gwell arferion buarth (padiau llenwi chwistrellwyr, biowelyau, biohidlwyr) i atal dŵr rhag cael ei halogi, mae rôl cynghori CSF yn allweddol, gan helpu i ganolbwyntio ymdrechion ar atebion cynaliadwy i fynd i'r afael â llygredd plaleiddiaid a'i leihau mewn ffordd sy'n fuddiol o ran costau ac a fydd yn sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i bobl, yr amgylchedd a bywyd gwyllt.

Yn yr Alban, gall cynefinoedd, cyrff dŵr, ac yn enwedig dŵr yfed, gael eu halogi gan blaleiddiaid drwy chwistrellu sydd wedi drifftio, dŵr ffo, llif dŵr o ddraeniau a thrwythyolchi. Gall rheolwyr tir wneud cais am gyllid o dan Raglen Datblygu Gwledig yr Alban er mwyn helpu i dalu am fesurau megis biowelyau, biohidlwyr ac adeiladu ardaloedd trin plaleiddiaid wedi'u byndio. Mae Gwasanaeth Cyngor Ar Ffermio'r Alban hefyd yn cynnig cyngor penodol ar leihau'r risg o lygredd plaleiddiaid ac mae canllawiau pellach ar gael hefyd drwy Fenter Ffermio a Dŵr yr Alban.

Hefyd, o dan Strategaeth Llygredd Gwasgaredig yr Alban, mae Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn ymweld â ffermydd mewn dalgylchoedd â blaenoriaeth o ran llygredd gwasgaredig. Mae amcanion allweddol yr ymweliadau hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o lygredd plaleiddiaid, edrych ar addasrwydd cyfleusterau trafod plaleiddiaid a thynnu sylw at arferion da.

Ers ei sefydlu yn 2013, mae'r Bartneriaeth Dalgylchoedd Dŵr yn gweithio mewn partneriaeth â NI Water ac mae'r diwydiant ffermio yng Ngogledd Iwerddon wedi helpu ffermwyr a rheolwyr tir i ddeall y prif agweddau ar drafod, taenu a gwaredu plaleiddiaid a ddefnyddir i reoli chwyn ar laswelltiroedd. Mae'r bartneriaeth yn rhoi arweiniad ar reoli

brwyni yn fecanyddol ac wedi cynnal digwyddiadau i ymgysylltu wyneb yn wyneb â chymunedau ledled Gogledd Iwerddon er mwyn cyflwyno ei neges. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar wefan NI Water, gan gynnwys 'Advice on Pesticides for Water Protection in Northern Ireland', sy'n nodi '5 steps to best practice' a'r daflen 'Stop and think about the water you drink' sy'n hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o blaleiddiaid i ddiogelu dŵr yfed.

Er mwyn helpu pob defnyddiwr plaleiddiaid i ddeall dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llawn, mae'n bwysig bod egwyddorion Rheoli Plâu Integredig yn cael eu cynnwys ym mhob rhaglen gynghori berthnasol. Dylai ffermwyr wneud defnydd llawn o ddulliau anghemegol er mwyn lleihau effeithiau plaleiddiaid ar gyrff dŵr. Os yw dulliau anghemegol yn aneffeithiol neu os nad ydynt ar gael, dylid targedu arferion chwistrellu a gwneud y defnydd gorau ohonynt er mwyn lleihau'r risg i'r amgylchedd. Er mwyn cefnogi'r newidiadau hyn, bydd CSF a BASIS yn cydweithio i ddatblygu hyfforddiant i swyddogion CSF, cynghorwyr fferm eraill a ffermwyr ar Reoli Plâu Integredig ac effaith plaleiddiaid ar ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.

### 2.6.2 Gwella safonau a rhannu gwybodaeth yn y sector amwynder

Defnyddir plaleiddiaid yn helaeth i gynnal a chadw seilwaith cyhoeddus a phreifat a diogelu eiddo rhag difrod. Mae'n hollbwysig bod rheolwyr amwynder yn cael hyfforddiant priodol ac yn arfer y safonau uchaf posibl er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid. Drwy fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llwyr, mae rhai rheolwyr amwynder wedi llwyddo i gyflawni eu nodau rheoli plâu heb ddefnyddio plaleiddiaid cemegol, gan leihau'r risgiau'n sylweddol. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu hyfforddiant ar Reoli Plâu Integredig a chyfleoedd i rannu gwybodaeth a datblygu dulliau amgen yn y sector amrywiol hwn. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod rheolwyr amwynder yn defnyddio dulliau Rheoli Plâu Integredig yn llawn, gan leihau eu dibyniaeth ar blaleiddiaid cemegol a gwella eu safonau.

**Canllawiau ac adnoddau**

Mae canllawiau ac adnoddau ar gael i alluogi'r rhai sy'n comisiynu ac yn cynnal gwaith rheoli plâu amwynder i wella ansawdd a chynaliadwyedd yr hyn y maent yn ei gyflawni, er enghraifft, *The Reference Guide for Integrated Weed Management in Amenity Spaces and Public Realm* a gyhoeddwyd gan Parks for London gyda chymorth y Fforwm Amwynder. Mae'r canllaw yn disgrifio'r broses o baratoi cynlluniau rheoli chwyn integredig manwl sy'n dilyn dull hierarchaidd Rheoli Plâu Integredig (Ffigur 1) ac yn cynnwys templedi ar gyfer nifer o ddefnyddiau tirwedd penodol. Mae rhai rheolwyr amwynder yn gweithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil, grwpiau cymunedol ac amgylcheddol, gan ddefnyddio Rheoli Plâu Integredig i ddileu'n raddoly defnydd anhanfodol o blaleiddiaid a hyrwyddo bioamrywiaeth, ac ystyried lle mae angen rheoli plâu drwy ddulliau cemegol fwyaf a lle mae potensial i ymrwymo i ddefnyddio dulliau anghemegol. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau amgen, gan gynnwys triniaethau ewyn poeth a chwynnu â llaw er mwyn rheoli chwyn yn llwyddiannus yn yr ardaloedd lle mae'r dulliau hyn yn briodol.

Mae Cofrestr Hyfforddiant Amwynder BASIS yn Gofrestr Broffesiynol flynyddol ar gyfer y diwydiant amwynder. Mae'n cyfuno Cofrestr Amwynder flaenorol BASIS a Chofrestr Gweithredwyr Chwistrellu Amwynder Genedlaethol City & Guilds (NASOR). Mae Cofrestr Hyfforddiant Amwynder BASIS wedi'i chynllunio ar gyfer cynghorwyr a gweithredwyr chwistrellwyr ac eraill sy'n gyfrifol am ddefnyddio plaleiddiaid yn y sector amwynder.

Mae aelodaeth o'r Gofrestr Hyfforddiant Amwynder yn darparu'r canlynol:

- Cydnabyddiaeth a datblygiad proffesiynol;
- Gwybodaeth gyfredol am arferion gwaith mwy effeithlon ac effeithiol yn y sector amwynder, gan gynnwys plaleiddiaid a dulliau integredig;
- Sgiliau profedig ar gyfer rheoli chwyn, plâu a chlefydau'n broffesiynol;
- Datblygiad gyrfa drwy DPP parhaus;
- Cydnabyddiaeth annibynol o safonau da i weithredwyr.

Ceir cwrs penodol gan BASIS i Stôr-geidwaid enwebedig ar gyfer Amwynder, ac mae Tystysgrif BASIS mewn Diogelu Cnydau ar gyfer Staff Gwerthiannau Maes a Thechnegol (FSTS) yn rhoi hyfforddiant i werthwyr a chyflenwyr plaleiddiaid ac yn eu hardystio, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cyngor ar eu defnyddio. Mae BASIS wedi diwygio ei system bwyntiau DPP i gynnwys Rheoli Plâu Integredig a fydd yn cael ei roi ar waith yn Nhystysgrifau Diogelu Cnydau BASIS ar gyfer Amwynder ym mis Ionawr 2021. Mae hwn yn gam hollbwysig tuag at helpu defnyddwyr amwynder i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau Rheoli Plâu Integredig, gan sicrhau eu bod yn cael cyngor ar yr holl opsiynau sydd ar gael. Byddwn yn gweithio gyda BASIS i gynyddu nifer y bobl sy'n mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig a sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn cefnogi defnyddwyr amwynder yn effeithiol yn unol â nodau'r CGC hwn.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu addysg, llwyfannau rhannu gwybodaeth a dulliau cynghori ar gyfer y sector amwynder. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid amwynder er mwyn gwella'r dulliau o drosglwyddo gwybodaeth a dangos arferion gorau, ac yn cefnogi defnyddwyr amwynder drwy hyfforddiant a chyfathrebu gwell.

Er mwyn cefnogi'r sector amwynder ymhellach, rydym am ddeall yr hyn sy'n ysgogi newid yn well a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar brosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r dewis o ddulliau rheoli amwynder. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o annog mwy o reolwyr amwynder i fabwysiadu dulliau amgen, gan gynnwys ystyried y materion ariannol dan sylw.

**Codi safonau yn y sector amwynder**

Rydym yn ymwybodol bod aelodaeth o Gofrestr Amwynder BASIS wedi arafu ers i'r gofrestr gael ei chyflwyno i'r sector yn 2015. Er y gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod mwy o reolwyr amwynder wedi ymuno â Chofrestr Broffesiynol BASIS, rydym am gynyddu nifer y bobl sy'n cael yr hyfforddiant ac sydd wedyn yn mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig ym maes amwynder er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn cael hyfforddiant ac adnoddau da, gan adeiladu ar waith y Fforwm Amwynder ac awdurdodau lleol.

Un her allweddol o ran gwella cynaliadwyedd ym maes amwynder yw cyrraedd y rhai nad ydynt yn dilyn arferion gorau ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried diweddaru'r gofynion ar fusnesau amwynder i gydymffurfio â safonau cydnabyddedig. Byddai hyn yn helpu i gynyddu arferion da ac yn ennyn diddordeb rheolwyr amwynder mewn cynaliadwyedd drwy ddefnyddio dulliau integredig.

Y Fforwm Amwynder yw menter wirfoddol y diwydiant yn y DU, sy'n hyrwyddo arferion gorau a dulliau diogel a chynaliadwy o reoli chwyn, plâu a chlefydau yn y sector amwynder. Mae Safon Amwynder y Fforwm Amwynder o bosibl yn safon i'r diwydiant cyfan. Mae'r Safon Amwynder, a gyflwynwyd yn 2019, yn safon rheoli ansawdd bwrpasol ar gyfer y sector amwynder. Mae'n hyrwyddo'r defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig ac arferion gorau wrth reoli chwyn a phlâu, gan gynnwys dulliau anghemegol, a defnyddio plaleiddiaid cemegol mewn ffordd ddiogel a chyfrifol pan fo angen gwneud hynny. Nod y Safon Amwynder yw:

- Rhoi meincnod i'r diwydiant;
- Sicrhau bod pob proses wedi'i chynllunio;
- Rhoi sail dros welliant parhaus;
- Canolbwyntio ar ansawdd fel amcan;
- Rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y sefydliad(au) cymeradwy;
- Darparu a chynnal gweithlu cymwys sydd wedi cael hyfforddiant priodol;
- Cynnwys pawb yn y diwydiant i fod yn berchen ar y safon mewn fframwaith partneriaeth.
- Sicrhau bod gweithredwyr y cynllun ardystio o dan fantell y Safon Amwynder hon yn defnyddio archwilwyr sy'n meddu ar wybodaeth dechnegol a phrofiad o'r sector dan sylw;
- Meithrin hyder mewn contractwyr â sicrwydd ansawdd a sefydliadau eraill drwy ddarparu system gadarn a thryloyw.

Mae'r Fforwm Amwynder yn gweithio gyda llywodraethau ledled y DU i hyrwyddo ei Safon Amwynder fel safon sy'n cyfateb i safon y Tractor Coch yn y sector amaethyddol, fel y gall y cyhoedd weld bod arferion da yn cael eu dilyn. Mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sydd am ddefnyddio'r Safon Amwynder fod yn rhan o gynllun sicrwydd sector-benodol a gymeradwyir o dan y Safon Amwynder. Ar hyn o bryd, mae'r Safon Amwynder yn cymeradwyo cynlluniau Rheoli Chwyn Goresgynnol Amenity Assured, Lawn Assured a'r Sefydliad Gofal Eiddo. Mae cynlluniau sicrwydd ar gyfer glaswellt golff a chwaraeon yn cael eu llunio'n derfynol ar hyn o bryd. Nod y cynlluniau yw sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gan weithredwyr cymwysedig, archwiliedig a chymeradwy er mwyn sicrhau ansawdd cyson, dibynadwyedd a lleihau risgiau i'r eithaf.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynlluniau sicrwydd yn rhoi digon o wybodaeth a hyfforddiant ar Reoli Plâu Integredig a dulliau anghemegol o reoli amwynder, yn ogystal â chymwysterau ym maes defnyddio cynhyrchion cemegol.

### 2.6.3 Defnydd amatur ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

Mae'n debygol y bydd y term Rheoli Plâu Integredig yn anghyfarwydd i lawer o'r cyhoedd, ond mae eisoes ddiddordeb y gallwn adeiladu arno i leihau'r defnydd o blaleiddiad yng ngerddi cartrefi a gerddi cymunedol, yn ogystal â rhandiroedd. Mae plaleiddiaid sydd wedi cael eu creu a'u hawdurdodi at ddefnydd amaturiaid yn debygol o barhau'n adnoddau defnyddiol i lawer o arddwyr. Er mwyn sicrhau bod garddwyr yn gallu cael cyngor o ansawdd uchel ar ddulliau amgen yn lle plaleiddiaid cemegol, byddwn yn hyrwyddo'r ffynonellau presennol o arweiniad yn fwy cyffredinol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau newydd lle y bo angen. Er enghraifft, mae gwefan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (https://www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=1023) yn rhoi gwybodaeth am ddim am reoli plâu a chlefydau heb gemegion, ac mae gwefan y Rhwydwaith Gweithredu Plaleiddiaid yn cynnwys canllaw am ddim ar Arddio heb Blaleiddiaid (https://www.pan-uk.org/gardening-without-pesticides/).

Felly, mae'r meysydd i ganolbwyntio arnynt o ran defnyddwyr plaleiddiaid amatur yn debyg i'r rhai ar gyfer y sector amaethyddiaeth, y sector garddwriaeth a'r sector amwynder proffesiynol. Byddwn yn annog mwy o ddefnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig a dulliau mwy cynaliadwy o reoli plâu yn yr ardd drwy weithio gyda sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth or dulliau anghemegol a'u gwerth i fyd natur,

Er mwyn cynyddu nifer y defnyddwyr plaleiddiaid sy'n mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig ym mhob sector, byddwn yn sicrhau bod egwyddorion a negeseuon Rheoli Plâu Integredig yn parhau'n gyson. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch wedi'i brandio i annog pobl i fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig i'w chyflwyno ym mhob system darparu hyfforddiant, cynghori a rhannu gwybodaeth ym maes Rheoli Plâu Integredig. Bydd yr ymgyrch yn dod â holl ymdrechion y DU o dan un faner, a bydd yn ceisio creu mwy o gysylltedd rhwng ffermwyr, rheolwyr tir, defnyddwyr amwynder a defnyddwyr amatur, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

### 2.6.4 Cymorth ariannol ar gyfer Rheoli Plâu Integredig

Ledled y DU, mae cynlluniau amaeth-amgylchedd yn parhau i roi cymhellion ariannol i ffermwyr, perchenogion coetiroedd, coedwigwyr a rheolwyr tir i ofalu am yr amgylchedd a'i wella.

Yn 2024, bydd y cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol yn dod yn gonglfaen polisi amaethyddol Lloegr. Bwriedir i'r cynllunRheoli Tir yn Amgylcheddol, sy'n seiliedig ar egwyddor “arian cyhoeddus am fuddiannau cyhoeddus”, fod yn gyfrwng pwerus i gyflawni nodau'r Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd a'r ymrwymiad i sicrhau allyriadau carbon sero net, a chefnogi ein heconomi wledig ar yr un pryd. Gall ffermwyr a rheolwyr tir eraill ymrwymo i gytundebau i gael eu talu am gyflawni'r buddiannau cyhoeddus canlynol: aer glân; dŵr glân a digonol; planhigion a bywyd gwyllt sy'n ffynnu; diogelwch rhag peryglon amgylcheddol a'u lliniaru; harddwch, treftadaeth ac ymgysylltu; a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo. O dan y Cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol, bydd ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn gallu cael mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r ffordd y maent yn sicrhau'r buddiannau cyhoeddus hyn. Rydym yn cydnabod y gall Rheoli Plâu Integredig wneud

cyfraniad sylweddol tuag at sicrhau buddiannau cyhoeddus amgylcheddol ac felly rydym yn disgwyl i ddulliau Rheoli Plâu Integredig fod yn rhan o'r cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol.

Rydym am helpu ffermwyr i baratoi eu busnesau ar gyfer y cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol ac i allu gwneud mwy o gyfraniad tuag at nodau amgylcheddol y llywodraeth ac ymrwymiadau sero net cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno'n llawn yn 2024. Caiff rhai o elfennau craidd Cymhelliant Ffermio Cynaliadwy y cynllun Rheoli Tir yn Amgylcheddol eu lansio yn 2022. I ddechrau, bydd pob ffermwr sy'n cael taliad o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol yn gymwys. Bydd Cymhelliant Ffermio Cynaliadwy 2022 yn talu cyfranogwyr i gyflwyno rhai o elfennau sylfaenol ffermio amgylcheddol gynaliadwy; mae hyn yn debygol o gynnwys rhai camau gweithredu Rheoli Plâu Integredig.

Hefyd, yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU yn ystyried ffyrdd o helpu ffermwyr i wella cynhyrchiant a ffyniant eu busnesau drwy ddarparu Cronfa Buddsoddi Ffermio i'w helpu i brynu cyfarpar, technoleg a seilwaith. Bydd hyn yn eu galluogi i leihau costau, cynhyrchu mwy o gnydau, ychwanegu gwerth at gynhyrchion presennol, creu cynhyrchion newydd a/neu werthu eu cynhyrchion eu hunain i ddefnyddwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cynllun grant hwn er mwyn hwyluso'r broses o fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig a helpu ffermwyr i leihau eu defnydd o blaleiddiaid.

Yn yr Alban, sefydlwyd Grŵp Polisi Ffermio a Chynhyrchu Bwyd y Dyfodol (FFP-FPG) i wneud argymhellion ar gynhyrchu bwyd yn y dyfodol ar ôl PAC, o tua 2024 ymlaen. Mae trafodaethau'r grŵp yn tynnu at eu terfyn a disgwyliwn iddo gyflwyno adroddiad yn y misoedd nesaf, a fydd yn mabwysiadu ymagwedd holistaidd at arloesedd, yr economi wledig, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd.

Yng Nghymru, drwy'r ymgynghoriad ‘Ffermio Cynaliadwy a'n Tir’, rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd yn y dyfodol gael ei gynllunio ar sail egwyddor cynaliadwyedd ac yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cynnig cynllun talu newydd a fydd yn gwobrwyo ffermwyr am sicrhau canlyniadau rheoli tir cynaliadwy megis gwell bioamrywiaeth, ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Bwriad y cynllun hwn yw creu ffermydd cynaliadwy sy'n cynhyrchu bwyd ac yn sicrhau buddiannau cyhoeddus ehangach. Drwy weithredu ar sail canlyniadau, bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn llai rhagnodol, ac rydym yn nodi'r camau ymarferol ar y fferm y gellir eu cynnwys. Mae hyn yn debygol o gynnwys camau sy'n pwysleisio twf cnwd iach, gyda chyn lleied o amharu ar ecosystemau â phosibl, yn ogystal â chamau sy'n annog dulliau naturiol o reoli plâu.

Yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth ariannol o dan y Cynllun Ffermio Amgylcheddol (EFS), mae angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun fonitro organebau niweidiol drwy ddefnyddio egwyddorion Rheoli Plâu Integredig a chofnodi llwyddiant y mesurau diogelu cnydau hynny a ddefnyddiwyd. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan gadw cofnodion cywir a chyfredol o egwyddorion Rheoli Plâu Integredig a roddwyd ar waith, y mae'n rhaid iddynt fod ar gael i arolygydd edrych arnynt unrhyw bryd.

### 2.6.5 Ymchwil a Datblygu i gefnogi dulliau Rheoli Plâu Integredig

Rydym am hyrwyddo'r gwaith o sicrhau bod dulliau amgen risg is o reoli plâu ar gael. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ymchwilio i ffyrdd o leihau dibyniaeth ar blaleiddiaid, eu datblygu a'u hyrwyddo ond mae angen gwell dealltwriaeth o'r prosesau ecolegol sy'n sail i Reoli Plâu Integredig. Mae nifer o brosiectau wedi'u sefydlu i ddatblygu'r sylfaen wybodaeth hon, gan gynnwys:

- **Yr Arolwg o Blâu a Chlefydau Cnydau Âr –** ymarfer blynyddol a ariennir gan Defra sy'n monitro lefelau plâu sy'n infertebrata a chlefydau endemig ac arferion agronomaidd o ran gwenith gaeaf a rêp had olew. Mae wedi bod yn rhedeg ers tua 40 mlynedd. Mae'r canlyniadau wedi rhoi data dibynadwy ar gefndir achosion o blâu endemig a phathogenau a'r risg i'w priod gnydau. Y ffordd orau o ganfod newidiadau yn statws plâu a chlefydau brodorol yw drwy gynnal arolygon cenedlaethol wedi'u cydgysylltu ar lefel uchel, a nifer y bobl sy'n derbyn y cyngor mwyaf dibynadwy ar strategaethau priodol i'w rheoli. Felly, mae gwybodaeth am y newidynnau sy'n dylanwadu ar gynhyrchu cnydau a chynaliadwyedd wedi cael ei chasglu, ei mesur a'i choladu er mwyn rhoi set ddata unigryw;
- Nod y Rhwydwaith Ardal Ymchwil Ewropeaidd ar **Gynhyrchu Cnydau'n Gynaliadwy (SusCrop)** oedd diogelu'r cyflenwad bwyd, ymateb i alw cynyddol biomas a ddefnyddir yn ddiwydiannol a chadw a gwella amgylchedd iach, cynefinoedd naturiol a bioamrywiaeth;
- Nod y **Rhwydweithiau Gwella Geneteg (GINs)** a oedd yn canolbwyntio ar ymchwil cyn bridio gymhwysol ar gyfer prif gnydau'r DU (gwenith, rêp had olew, codlysiau a llysiau) oedd cyflwyno nodweddion buddiol, sicrhau cynaliadwyedd a chadernid gan gynnwys ymwrthedd i blâu a chlefydau, sefydlogrwydd cynnyrch cnydau, defnyddio nitrogen yn effeithlon a'r gallu i oddef amodau sych;
- Y **Ganolfan Iechyd a Diogelu Cnydau (CHAP)** – Canolfan Amaethdechnoleg yn y DU a ariennir gan Innovate UK (a ariennir gan Lywodraeth y DU). Mae CHAP yn dod â'r diwydiant ynghyd i ddeall heriau ac ysgogi ymchwil ac arloesi er mwyn helpu i ddatblygu a threialu atebion i wella systemau cnydio;
- **Arolwg o Wenwyndra Pathogenau Cnydau Ŷd y DU (UKCPVS) –** prosiect a ariennir gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Defra sy'n gweithredu fel system rhybudd cynnar ar gyfer pathogenau newydd drwy brofi arunigion pathogenau ar gyfer gwenwyndra yn erbyn gwenith a haidd;
- **Sicrhau Systemau Amaethyddol Cynaliadwy (ASSIST) –** rhaglen galluogrwydd genedlaethol hirdymor gydweithredol i gefnogi gweithgarwch dwysáu cynaliadwy. Fe'i sefydlwyd mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth, y diwydiant a sefydliadau ymchwil academaidd i wella effeithlonrwydd gweithgarwch cynhyrchu bwyd, y gallu i wrthsefyll eithafion a lleihau ôl troed amgylcheddol amaethyddiaeth.

Datblygodd sylfaen wybodaeth ar y cyd â datblygiadau eraill ym maes technoleg amaethyddol megis synhwyro o bell, technolegau data mawr, a chwistrellwyr manwl, a fydd yn cynnig opsiynau rheoli plâu amgen amrywiol a soffistigedig i dyfwyr a defnyddwyr amwynder. Bydd hefyd yn sicrhau, pan gaiff plaleiddiaid eu defnyddio, y caiff hyn ei wneud gan beri risg is i'r amgylchedd.

## Cronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol

Mae angen mwy o dystiolaeth i sicrhau bod technoleg newydd yn cefnogi ein nodau amgylcheddol. Mae Llywodraeth y DU wedi neilltuo £90m o gyllid ar gyfer busnesau, ymchwilwyr a'r diwydiant drwy Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer trawsnewid prosesau cynhyrchu bwyd. Sefydlwyd y gronfa i ateb y galw cynyddol am fwyd ac i symud tuag at allyriadau sero-net erbyn 2050. Mae'r enghreifftiau o'r math o brosiectau a ariennir yn cynnwys chwynnu awtonomaidd, defnydd manwl, deallusrwydd artiffisial, chwynnu trydanol, roboteg a chanfod clefyd yn gynnar.

Os caiff ei gweithredu'n gywir, dylai technoleg newydd wella diogelwch amgylcheddol, cynyddu proffidioldeb i dyfwyr a defnyddwyr amwynder, a bod ar gael i fusnesau o bob maint. Byddwn yn helpu pob defnyddiwr plaleiddiaid i sicrhau arferion cynaliadwy drwy gefnogi ymchwil a datblygu ym maes Rheoli Plâu Integredig a dulliau amgen.

### Astudiaeth Achos: Dronau Canfod a Rheoli Malltod

Yn 2019, rhoddwyd grant i Rinicom a FOLIUM Science o dan Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol. Nod eu prosiect yw nodi malltod bacterol (*Xanthomonas*), sef pla mawr ar gnydau sefydlog ledled y byd, ymhlith heintiau eraill a chyflwyno triniaeth wedi'i thargedu, a hynny drwy gerbydau awyr di-griw. Bydd y cerbydau awyr di-griw yn defnyddio cyfuniad o ddelweddu eglur iawn a dadansoddeg fideo drwy ddeallusrwydd artiffisial er mwyn canfod, nodi a dosbarthu arwyddion cynnar o haint. Nod y prosiect yw lleihau'r risg o ymwrthedd i blaleiddiaid drwy eu targedu'n benodol, yn ogystal â lleihau'r defnydd o blaleiddiaid cemegol.

## Strategaethau rheoli ymwrthedd

Yn wyneb yr ymwrthedd cynyddol i blaleiddiaid a'r ffaith bod llai o blaleiddiaid ar gael bellach, mae angen gwell strategaethau rheoli ymwrthedd, a hynny'n rhannol o ganlyniad i amlygiad cynyddol plâu i nifer cyfyngedig o ddulliau gweithredu. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu cyllid ar gyfer ymchwil i fonitro ymwrthedd i bryfleiddiaid a dilysu canllawiau rheoli ymwrthedd i bryfleiddiaid. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Grwpiau Gweithredu ar Ymwrthedd i Bryfleiddiaid, Ffyngleiddiaid a Chwyn (IRAG, FRAG, a WRAG). Mae dulliau Rheoli Plâu Integredig yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli ymwrthedd drwy leihau'r angen i daenu plaleiddiaid, a thrwy hynny leihau amlygiad y pla i blaleiddiad penodol hefyd. Drwy ddeall sut y datblygir ymwrthedd a statws pla, bydd modd hefyd helpu i sicrhau, pe bai angen plaleiddiad, ei fod yn cael ei ddefnyddio drwy ddefnyddio sylwedd actif plaleiddiad cywir, ar y gyfradd ddosio gywir ac ar yr adeg gywir.

## 2.7 Cwestiynau ar Nod 2 – Hyrwyddo'r Defnydd o Ddulliau Rheoli Plâu Integredig

**Cwestiwn 7 –** Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu a helpu gwasanaethau rheoli a chynghori i sicrhau cynnydd yn y defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig?

**Cwestiwn 8** – Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod defnyddwyr plaleiddiaid yn cael gwybodaeth lawn am fuddiannau ac ymarferoldeb dulliau Rheoli Plâu Integredig?

**Cwestiwn 9** – Sut y gellir defnyddio'r gwaith o hyrwyddo safonau cydnabyddedig i annog y defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig, yn y sector amwynder, y sector amaethyddol ac yn fwy cyffredinol?

**Cwestiwn 10** – Pa awgrymiadau sydd gennych ar gyfer ymgyrch gyfathrebu i annog mwy o ddefnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig?

**Cwestiwn 11** – Sut y gallem ddefnyddio cynlluniau cymorth ariannol i wrthbwyso'r risgiau sy'n gysylltiedig â Rheoli Plâu Integredig?

**Cwestiwn 12** – Beth ddylai'r llywodraeth ei wneud i hwyluso ymchwil i argaeledd dulliau effeithiol o reoli plâu?

**Cwestiwn 13** – Pa awgrymiadau eraill sydd gennych i wella 'r defnydd o ddulliau Rheoli Plâu Integredig?

## 2.8 Nod 3 – Defnydd Diogel a Chyfrifol o Blaleiddiaid

I'r rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid, mae'n bwysig sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy. Ers CGC 2013, rydym wedi gweld gwelliant o ran hyfforddiant, ac mae cydymffurfiaeth wedi parhau'n dda yn y sector amaethyddol (gweler Atodiad 1 – Tabl 1, Penawdau 2 a 4). Mae llai o dystiolaeth o gynnydd yn y sector amwynder. Yn y sector amatur, ceir nifer anghymesur o achosion cofnodedig o wenwyno, boed hynny'n fwriadol neu drwy gamddefnydd. Drwy'r CGC, byddwn yn sicrhau, drwy hyfforddiant gwell a phrosesau cyfathrebu penodol, y byddwn yn helpu pawb sy'n defnyddio plaleiddiaid i fabwysiadu egwyddorion Rheoli Plâu Integredig. Pan gaiff plaleiddiaid eu defnyddio, byddwn yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn gwybod sut y gellir eu defnyddio a'u gwaredu'n ddiogel.

Er mwyn **sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio plaleiddiaid yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy**, byddwn yn:

- ***Ceisio gwella'r system orfodi ar gyfer plaleiddiaid, gan wirio busnesau dethol yn amlach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.***
- ***Sicrhau y caiff unigolion eu hatal rhag prynu plaleiddiaid sydd wedi'u hawdurdodi at ddefnydd proffesiynol os nad yw'r defnyddiwr terfynol wedi cael hyfforddiant priodol na'i ardystio, a byddwn yn ystyried deddfu i gyflwyno gofynion cynyddol ar adeg gwerthu os bydd angen.***
- ***Sicrhau bod plaleiddiaid sydd wedi'u dosbarthu at ddefnydd gweithwyr proffesiynol yn parhau i gael eu defnyddio'n gywir fel y bydd risgiau i'r amgylchedd yn cael eu lleihau i'r eithaf ac y bydd risgiau i iechyd pobl yn cael eu hosgoi.***
- ***Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo negeseuon clir i ddefnyddwyr amatur er mwyn eu hannog i ddefnyddio dulliau amgen anghemegol lle bynnag y bo modd a byddwn yn rhoi gwell cyngor ar storio a gwaredu plaleiddiaid yn ddiogel.***

### 2.8.1 Cydymffurfiaeth

Mae cod ymarfer[3] pob gweinyddiaeth yn gymwys i holl ddefnyddwyr proffesiynol plaleiddiaid mewn perthynas â Rhan III o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 a'r rheoliadau sy'n rheoli plaleiddiaid, yn enwedig cynhyrchion diogelu planhigion. Mae'r dogfennau statudol hyn yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut y gellir defnyddio plaleiddiaid yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae sail statudol y codau yn golygu y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth pe bai angen dwyn achos llys am droseddau sy'n ymwneud â phlaleiddiaid. Rhennir y cyfrifoldeb am orfodi'r ddeddf rhwng yr Awdurdod

[3] Y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion yng Nghymru a Lloegr, y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion yn yr Alban a Chod Ymarfer Gogledd Iwerddon ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion.

Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), awdurdodau lleol ac adrannau amaethyddiaeth y llywodraethau. Mae dilyn y Cod hefyd yn rhan o Drawsgydymffurfio. Byddwn yn diweddaru'r codau ymarfer er mwyn adlewyrchu'r nod o sicrhau bod Rheoli Plâu Integredig wrth wraidd y ffordd rydym yn rheoli plâu.

Mae trawsgydymffurfio yn amod sy'n gymwys i bob ffermwr a rheolwr tir sy'n hawlio o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Amaeth-amgylchedd penodol. Mae trawsgydymffurfio yn cynnwys 'Gofynion Rheoli Statudol' (SMR) a safonau ar gyfer 'Amodau Tir Amaethyddol ac Amgylcheddol Da' (GAEC). Daw plaleiddiaid o dan GAEC 1 a 3, a SMR 4 a 10. Os na chydymffurfir â'r rheolau GAEC na SMR sy'n gymwys i fusnes penodol, efallai y caiff ei daliad(au) o dan y cynllun ei leihau/eu lleihau. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r Asiantaethau Taliadau Gwledig yn seilio eu penderfyniadau ar y graddau nas cydymffurfiwyd a pha mor ddifrifol a pharhaol yw hynny. Yn yr Alban, Is-adran Taliadau Gwledig ac Arolygiadau Llywodraeth yr Alban sy'n gwneud penderfyniadau. Mae cydymffurfiaeth â thrawsgydymffurfio yn gyson uchel (Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 4).

Mae llywodraethau'r DU wedi ymrwymo i newid y diwylliant rheoleiddio i ffermwyr a rheolwyr tir. Ein nod yw sicrhau y caiff gwasanaeth rheoleiddio cefnogol, effeithiol a symlach ei ddarparu. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi mynd ati i wella ein prosesau o roi cyngor, arweiniad a chymorth i helpu ffermwyr a rheolwyr tir i gydymffurfio â'r rheolau, ac rydym yn gweithio gyda nhw i ddatblygu cynllun i helpu eu fferm i godi safonau. Byddwn yn sicrhau bod ffermwyr yn cael mwy o gymorth i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Ym mis Mehefin 2020, daeth Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2020 i rym ym Mhrydain Fawr, sef y cam cyntaf tuag at ddatblygu gwell system orfodi ar gyfer plaleiddiaid, gan roi'r pwerau i gynnal arolygiadau mwy effeithiol a rhagweithiol ym mhob rhan o gadwyn gyflenwi plaleiddiaid, targedu gweithgarwch gorfodi yn seiliedig ar risg, a chryfhau'r trefniadau rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth plaleiddiaid. Wrth wneud hynny, bydd yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod rheolaethau digonol ar waith ym mhob rhan o gadwyn gyflenwi cynhyrchion diogelu planhigion er mwyn sicrhau diogelwch bwyd Prydain a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE. Fel rhan o hyn, mae HSE wedi recriwtio sawl Swyddog Gorfodi Plaleiddiaid penodedig newydd, a fydd yn gyfrifol am gynnal arolygiadau ledled Prydain Fawr. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant dros y 12 mis nesaf i ddatblygu ein system orfodi, gan sicrhau bod arolygiadau yn targedu meysydd lle ceir y risg fwyaf ac yn lleihau beichiau ar fusnesau hyd y gellir.

### 2.8.2 Gwerthu cynhyrchion proffesiynol

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n prynu plaleiddiad sydd wedi'i awdurdoddi at ddefnydd proffesiynol sicrhau bod y defnyddiwr terfynol yn dal tystysgrif neu y bydd yn gweithio o dan oruchwyliaeth rhywun sydd â thystysgrif.

Mae gwerthu cynhyrchion a chyfarpar plaleiddiaid ar y rhyngrwyd yn ddarostyngedig i'r un gofynion cyfreithiol â'r rhai a werthir drwy rwydweithiau dosbarthu mwy traddodiadol. Mae'r rhyngrwyd yn ei gwneud hi'n hawdd cael gafael ar gynhyrchion a all arwain at werthu cynhyrchion proffesiynol i amaturiaid, gan wneud defnydd anghymwysedig a risg i iechyd pobl a'r amgylchedd yn fwy tebygol. Ar ôl cael gwybod nad yw gwerthiannau ar-lein bob amser yn cydymffurfio ag arferion gorau a/neu ofynion cyfreithiol, gweithiodd HSE gyda manwerthwyr mawr ar y rhyngrwyd i'w gwneud yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau, ac mae cyrff y diwydiant wedi paratoi canllawiau arferion gorau i'r rhai sy'n dosbarthu cynhyrchion ar-lein (https://bpca.org.uk/write/MediaUploads/Documents/Member%20Only%20Documents/BPCA_Guidance_Document_Identifying_and_reporting_illegal_internet_Version_1_2019.pdf)

Byddwn yn gwneud rhagor o waith i atal unigolion rhag prynu plaleiddiaid sydd wedi'u hawdurdodi at ddefnydd proffesiynol os nad yw'r defnyddiwr terfynol wedi cael hyfforddiant priodol, a byddwn yn ystyried deddfu i gyflwyno gofynion cynyddol ar adeg gwerthu os bydd angen.

Rydym yn cydnabod y bydd y defnyddiwr terfynol a phrynwr y cynnyrch yn aml yn wahanol (er enghraifft, lle mae ffermwr yn prynu cynnyrch i'w ddefnyddio gan gontractwr). Fel y cyfryw, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant i ddatblygu a gweithredu unrhyw ofynion ychwanegol i atal gwerthiannau os nad yw'r defnyddiwr terfynol wedi cael hyfforddiant priodol, a chaniatáu pryniannau cyfreithlon ar yr un pryd. Er enghraifft, gellir ei gwneud hi'n ofynnol i ddosbarthwyr sicrhau bod prynwyr yn deall ac yn cydnabod y gofynion hyfforddi ac ardystio a'u bod yn ymwybodol o'r cosbau am beidio â chydymffurfio.

### 2.8.3 Ardystio

Gall sefydliadau dethol, a ddynodwyd gan HSE, ddyfarnu tystysgrifau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwasanaethau Tir City & Guilds; Lantra; BASIS; a'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd. Mae'n rhaid i'r cyrff dyfarnu hyn gael eu hachredu, neu eu hadolygu'n annibynnol, gan awdurdodau addysgol yn y DU.

Mae sicrhau bod pawb sy'n defnyddio plaleiddiaid, neu sy'n cynghori ar eu defnyddio, yn dal y cymhwyster cywir ac wedi cael hyfforddiant da yn allweddol i wella cynaliadwyedd defnyddio plaleiddiaid. Dim ond y rhai sydd wedi cael hyfforddiant priodol ac sy'n dal tystysgrifau penodol a all ddefnyddio plaleiddiaid proffesiynol. Bu gofyniad rheoliadol ers amser maith yn y DU bod yn rhaid i ddefnyddwyr, dosbarthwyr a stôr-geidwaid gael hyfforddiant a bod yn gymwysedig. Er ein bod yn cydnabod bod disgwyliad yn y diwydiant y caiff cynghorwyr eu hyfforddi a'u hardystio, nid yw'n ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried buddiannau mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y gofynion cyfreithiol er mwyn sicrhau bod yn rhaid i gynghorwyr gael eu hardystio'n briodol.

Mae hyfforddiant parhaus, neu Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), ar gael ar hyn o bryd i ddefnyddwyr plaleiddiaid amaethyddol a garddwriaethol proffesiynol, a gyflwynir o dan Gofrestr Genedlaethol Gweithredwyr Chwistrellwyr (NRoSO) Gwasanaethau Tir City & Guilds, ac i ddefnyddwyr amwynder drwy Gofrestr Hyfforddiant Amwynder BASIS.

Mae'r Gymdeithas Diogelu Cnydau a Chymdeithas y Crefftau Garddwriaethol wedi sefydlu hyfforddiant ar-lein i fanwerthwyr plaleiddiaid amatur, gan eu galluogi i roi gwybodaeth â hyder ar adeg gwerthu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff egwyddorion Rheoli Plâu Integredig eu hymgorffori mewn hyfforddiant i fanwerthwyr a bod defnyddwyr amatur yn ymwybodol bod y cyngor hwn ar gael.

## 2.8.4 Gorfodi yn y sector amwynder

O drafodaethau â rhanddeiliaid, ceir cytundeb cyffredinol bod angen gorfodi'r ddeddfwriaeth gyfredol yn well yn y sector amwynder. Bydd mwy o fuddsoddiad yn y drefn arolygu yn helpu i sicrhau y caiff achosion o dorri rheolau eu cosbi.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid amwynder er mwyn asesu'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio a gwella diogelwch cyffredinol yn y sector amwynder. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ymchwilio i opsiynau megis:

- Mwy o adnoddau gorfodi er mwyn ymateb i wybodaeth am achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth ym maes amwynder;
- Y gofyniad i fusnesau amwynder ddal trwydded i brynu plaleiddiaid proffesiynol, a thalu ffi i'w chael, gydag arolygiadau rheolaidd o fusnesau trwyddedig.

Byddwn yn ystyried buddiannau ei gwneud hi'n ofynnol i'r bobl sy'n gyfrifol am argymell triniaeth â phlaleiddiad, y rhai sy'n comisiynu'r driniaeth a'r rhai sy'n taenu'r plaleiddiad i gael eu hardystio'n briodol.

## 2.8.5 Canllawiau i ddefnyddwyr amatur

**Gwaredu amhriodol**

Gall gwaredu plaleiddiaid a'u cynwysyddion yn amhriodol arwain at halogi ffynonellau dŵr, aer a phridd. Mae arolygon a gynhaliwyd gan Grŵp Cyswllt Defnyddwyr Amatur HSE yn dangos bod lefelau gwaredu amhriodol yn y sector amatur yn dal yn achos pryder. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y caiff plaleiddiaid a'u cynwysyddion eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy, ac rydym am gynyddu'r defnydd o wasanaethau gwaredu. Mae'n bwysig bod y gwasanaethau hyn ar gael yn eang, y rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt a bod y gofyniad i'w defnyddio yn cael ei gyfleu'n glir. Mae'r Grŵp Cyswllt Defnyddwyr Amatur yn ymchwilio i sut i wella cyfarwyddiadau gwaredu ar labeli cynhyrchion ac mewn ffynonellau eraill o wybodaeth.Lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwaredu amhriodol yn achos pryder penodol, efallai y bydd cynlluniau casglu amnest yn cynnig opsiwn effeithiol o ran lleihau'r risgiau hyn. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau arbenigol, megis Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), i adolygu gweithgareddau yn y maes hwn a sicrhau bod plaleiddiaid a'u deunydd pecynnu yn cael eu gwaredu'n gywir.

**Tynnu cynhyrchion oddi ar y farchnad**

Pan gaiff cynhyrchion eu tynnu oddi ar y farchnad, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn cael cymorth i'w gwaredu'n ddiogel a dod o hyd i gynhyrchion amgen. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr i sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod, pan gaiff cynhyrchion eu tynnu oddi ar y farchnad, sut i'w gwaredu'n briodol, a pha gynhyrchion amgen sydd ar gael.

## 2.8.6 Profi cyfarpar ac arloesi

Mae trefniadau i archwilio cyfarpar wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. Defnyddir y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Profi Chwistrellwyr (NSTS) i roi systemau archwilio ar waith yn y DU ac mae wedi'i ddynodi gan HSE ar ran Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig. Ystyrir bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ar y cyfan yn y sector amaethyddol. Yn y sector amwynder, rydym yn gweithio gyda'r Fforwm Amwynder i asesu faint o gyfarpar a ddefnyddir a pha gamau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio.O dan y trefniadau archwilio presennol, mae'n rhaid i gyfarpar newydd gael ei brofi o fewn pum mlynedd i'w brynu, ac mae'n rhaid i ddefnyddwyr proffesiynol raddnodi eu peiriannau'n rheolaidd. Mae'n rhaid i gyfarpar â chwistrellwyr braich sy'n hwy na thri metr, gan gynnwys chwistrellwyr braich a osodir ar gyfarpar hau a chyfarpar a osodir ar drenau, awyrennau a pheiriannau taenu drwy'r awyr, gael ei brofi o leiaf bob pum mlynedd, ac o fewn tair blynedd i 26 Tachwedd 2020. Ar ôl hynny, bydd yn rhaid i gyfarpar gael ei brofi bob tair blynedd. Mae'n rhaid i bob math o gyfarpar arall gael ei brofi bob chwe blynedd o ddyddiad ei brawf cyntaf, gydag eithriadau ar hyn o bryd ar gyfer chwistrellwyr cefn a chwistrellwyr llaw. Rydym yn mynd ati i sicrhau bod cyfarpar

**Astudiaeth Achos: Weed Wipers yng Nghymru**

Ers 2013, mae gweithgarwch monitro dŵr heb ei drin rheolaidd o ffynonellau dŵr yfed wedi canfod olion cynyddol o blaleiddiaid mewn rhannau o Gymru nas gwelwyd o'r blaen. Er bod y lefelau hyn yn rhy isel i achosi risg i'r rhai sy'n yfed y dŵr, maent yn ddigon i achosi risg o dorri safon dŵr yfed lym o 0.1 microgram y litr. Yn 2015, cynhaliodd Dŵr Cymru, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, brosiect peilot a oedd yn gweithio gyda grwpiau o ddefnyddwyr amaethyddol er mwyn annog dulliau mwy deallus o leihau effeithiau plaleiddiaid. Fel rhan o'r treial, bu modd hurio weed wipers am ddim er mwyn hyrwyddo arferion gorau a lleihau faint o blaleiddiaid a ddefnyddir. Mae'r cyfarpar hwn yn taenu plaleiddiaid yn uniongyrchol dros chwyn glaswelltir, fel brwyni, ac felly mae'n defnyddio llai o gemegion ac yn lleihau'n sylweddol achosion o chwistrellu sydd wedi drifftio. Ers 2015, amcangyfrifir bod y defnydd o fwy na 5,500l o blaleiddiaid wedi cael ei osgoi drwy'r treial ac mae ymwybyddiaeth defnyddwyr plaleiddiaid o arferion gorau wedi gwella. Mae'r treial wedi arwain at arbedion sylweddol o ran costau ac adnoddau i Dŵr Cymru. Caiff triniaethau parhaol costus eu hosgoi oherwydd gellir rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â phlaleiddiaid drwy driniaethau tymhorol ac atebion sy'n seiliedig ar ddalgychoedd.

taenu plaleiddiaid newydd sy'n cael ei roi ar y farchnad yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae'n bwysig bod ystod briodol o beiriannau a chyfarpar yn cael ei harchwilio, a hynny ar amlder sy'n gwella ansawdd y cyfarpar a gyflwynir i'w archwilio, ond nad yw'n rhy feichus. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ac ym mhob rhan o'r llywodraeth i asesu gofynion ardystio ar gyfer cyfarpar taenu plaleiddiaid ac effeithiolrwydd y gofynion hyn.

**Cerbydau Awyr Di-griw**

Gall cerbydau awyr di-griw, neu ddronau, gynnig buddiannau o ran defnydd manwl ac wedi'i dargedu o blaleiddiaid, a gallant gael eu defnyddio yn lle cyfarpar â llaw mewn rhai amgylchiadau. Mae chwistrellu o ddronau wedi'i ddosbarthu'n chwistrellu o'r awyr.

Mae gofynion ychwanegol yn gymwys i chwistrellu plaleiddiaid o'r awyr er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n codi o ddefnyddio'r dull hwn (yn enwedig chwistrellu sydd wedi drifftio). Dim ond plaleiddiaid sydd wedi cael eu hasesu a'u hawdurdodi'n benodol i'w defnyddio o'r awyr y gellir eu defnyddio ac mae hefyd yn ofynnol i ganiatáu gweithrediadau chwistrellu unigol fel y gellir mynd i'r afael â phryderon lleol penodol, megis risgiau i safleoedd sy'n amgylcheddol sensitif.

Mae'r llywodraeth wrthi'n hyrwyddo gwaith gan gwmnïau dronau a'r diwydiant ffermio a'r diwydiant plaleiddiaid i gasglu gwybodaeth er mwyn deall y risgiau sy'n codi pan gaiff plaleiddiaid eu taenu â dronau. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys faint o ddrifftio a welir a phatrymau drifftio a'r ffordd y dylanwedir ar y rhain gan ffactorau megis: trefniant a phŵer y rotorau; safleoedd cymharol rotorau a thrwyn chwistrellwyr; ac amlygiad gweithredwyr o ganlyniad i weithrediadau llenwi a glanhau. Mae HSE hefyd yn arwain prosiect yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ddatblygu canllawiau ar y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwistrellu â dronau. Byddwn yn parhau i greu set ddata lawnach ar y risgiau sy'n gysylltiedig â thechnoleg newydd megis chwistrellu â dronau a chael gwared ar rwystrau rheoleiddiol diangen i arloesi.

### 2.8.7 Gwybodaeth am gynhyrchion

Rydym wedi ychwanegu modd gweithredu plaleiddiad neu biobladdeidiad yn ddiweddar at y gofynion ar gyfer labelu cynhyrchion, gan helpu defnyddwyr plaleiddiaid i ddatblygu eu cynllun rheoli ymwrthedd. Er mwn gwneud y broses awdurdodi a dosbarthu hyd yn oed yn fwy tryloyw, byddwn hefyd yn ystyried cynnwys gwybodaeth am y risg i iechyd a'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â chynhyrchion unigol. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr plaleiddiaid i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ddefnyddio dull Rheoli Plâu Integredig.

## 2.9 Cwestiynau ar Nod 3 – Defnydd Diogel a Chyfrifol

**Cwestiwn 14** – Sut y dylem godi ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd a'r amgylchedd a'r risgiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â defnyddio cynhyrchion proffesiynol heb hyfforddiant nac ardystiad cywir?

**Cwestiwn 15** – Beth fyddai buddiannau a heriau ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorwyr ar blaleiddiaid i gael eu hardystio, a hynny yn unol â'r gyfraith?

**Cwestiwn 16** – Beth yn rhagor y dylai manwerthwyr ei wneud i hysbysu defnyddwyr amatur plaleiddiaid am y camau y gallant eu cymryd i reoli plâu mewn ffordd fwy cynaliadwy?

**Cwestiwn 17** – Beth yw'r ffordd orau o dargedu gweithgarwch arolygu a gorfodi er mwyn atal arferion rheoli plâu anniogel ac sy'n niweidiol i'r amgylchedd?

**Cwestiwn 18** – Pa fathau o heriau y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y caiff plaleiddiaid heb eu defnyddio a chynwysyddion plaleiddiaid eu gwaredu'n ddiogel?

**Cwestiwn 19** – Beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod beth i'w wneud pan gaiff cynhyrchion plaleiddiaid eu tynnu oddi ar y farchnad?

**Cwestiwn 20** – Pa gamau eraill sydd eu hangen i sicrhau bod cyfarpar a ddefnyddir i daenu plaleiddiaid yn cydymffurfio â gofynion diogelwch?

**Cwestiwn 21** – Beth arall y dylem ei wneud i sicrhau y caiff plaleiddiaid eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a chyfrifol?

## 2.10 Nod 4 – Targedau, Metrigau a Dangosyddion

Mae'n bwysig ein bod yn gallu mesur cynnydd tuag at y nod lefel uchel o leihau risgiau ac effeithiau plaleiddiaid o ran iechyd pobl a'r amgylchedd, a sicrhau y caiff plâu ac ymwrthedd i blaleiddiaid eu rheoli'n effeithiol.

Er mwyn **helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlaleiddiaid drwy bennu targedau clir erbyn diwedd 2022, a gwella metrigau a dangosyddion**, byddwn yn:

- ***Pennu set glir o dargedau ar gyfer lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid erbyn diwedd 2022.***
- ***Sicrhau bod polisi ar blaleiddiaid yn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau presennol ynghylch bioamrywiaeth a dŵr.***
- ***Datblygu metrigau gwell ar gyfer mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig a dangosyddion amgylcheddol wedi'u diweddaru ar gyfer plaleiddiaid er mwyn rhoi llinell sylfaen y gallwn bennu targed yn ei herbyn.***

Mae'r data a gasglwyd ers cyhoeddi CGC 2013 yn tynnu sylw at yr angen am sylfaen dystiolaeth gadarnach. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd yr amgylchedd ac iechyd pobl yn hynod gymhleth ac yn rhyngweithiol iawn. Felly, mae'n anodd cael tystiolaeth o gydberthnasau achosol. Defnyddir dangosyddion i symleiddio'r broses hon a rhoi tystiolaeth sy'n haws ei mesur ond sy'n parhau i ddangos canlyniadau o ddiddordeb. Bydd gwell dangosyddion yn ei gwneud yn bosibl i linell sylfaen gael ei phennu ar gyfer mesur llwyddiant. Rydym yn ymrwymedig i wella ein dangosyddion er mwyn iddynt roi mwy o wybodaeth am y ffyrdd y mae plaleiddiaid yn effeithio ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

Mae Fframwaith Dangosyddion CGC 2013 y DU (Atodiad 1 – Ffigur 1) yn rhoi strwythur ar gyfer datblygu'r metrigau sydd eu hangen i fesur risgiau ac effeithiau plaleiddiaid. Dros oes CGC 2013, mae rhai metrigau newydd wedi cael eu hychwanegu ond erys bylchau i'w llenwi o hyd.

Drwy ddatblygu gwell dangosyddion, bydd modd i ni gyflwyno targed (neu dargedau) i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid. Byddwn yn sefydlu grŵp amrywiol o arbenigwyr i gytuno ar fetrigau priodol i'w defnyddio fel y sail i dargedau, a phenderfynu ar lefelau priodol y targedau. Rydym yn ymrwymedig i roi'r targedau ar waith erbyn diwedd 2022.

### 2.10.1 Dangosyddion o'r defnydd o blaleiddiaid a llwyth

Yr Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid (PUS) yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth am y defnydd o blaleiddiaid yn y DU. Mae'r data yn cynnwys pwysau'r plaleiddiaid sydd wedi cael eu taenu a'r arwynebedd. Mae'r naill fesur a'r llall yn elfennau pwysig o ddeall patrymau defnyddio plaleiddiaid. Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio ar y pwysau a daenwyd a'r arwynebedd yn unig, nid ystyrir yr amrywiad yn nodweddion cemegol y sylweddau actif

sy'n  cael eu taenu, na'u heffeithiau cysylltiedig ar iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae hyn yn gyfyngiad allweddol ar y gwaith o fonitro'r defnydd o blaleiddiaid yn y DU gan na ellir defnyddio'r data ar y defnydd o blaleiddiaid, ar eu pen eu hunain, i ganfod sut mae'r risgiau a achosir i iechyd pobl a'r amgylchedd yn newid dros amser.

O ystyried y cymhlethdodau hyn a'r amrywiadau blynyddol yn yr angen i ddefnyddio plaleiddiaid, mae pennu targedau rhifol ar gyfer lleihau defnydd yn heriol. Mae natur gymhleth yr asesiad wedi'i dwysáu ymhellach gan ffactorau sy'n dylanwadu ar effaith plaleiddiaid ar dirweddau ar ôl iddynt gael eu taenu, gan gynnwys tywydd a ffactorau sensitif lleol. Nid yw'n amlwg ar hyn o bryd y gallai targedau sy'n seiliedig ar y pwysau a daenir neu faint o weithiau y caiff plaleiddiad ei daenu ystyried y newidynnau hyn yn ddigonol er mwyn bod yn adnodd effeithiol i lywio'r newidiadau ymddygiadol cywir a gall fod risg o greu cymhellion croes. Felly, bydd angen ystyried unrhyw dargedau'n ofalus cyn eu cyflwyno, er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawnadwy, a hefyd bennu meincnod heriol y gellir asesu cynnydd yn ei erbyn. Er mwyn goresgyn rhai o'r heriau hyn, rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ffyrdd newydd o fonitro defnydd sy'n ystyried gwenwyndra cymharol y sylweddau a ddefnyddir.

**Dangosydd Llwyth Plaleiddiaid y DU**

Mae Defra yn cynnal ymchwil i ddatblygu Dangosydd Llwyth Plaleiddiaid i'r DU. Bydd yn cyfuno data'r DU ar y defnydd o blaleiddiaid a phwysau sylweddau actif penodol o ran perygl i iechyd pobl, gwenwyndra amgylcheddol a thynged amgylcheddol. Y nod yw cynnig dangosydd o'r llwyth plaleiddiaid yn y DU a fydd yn dangos newid yn risg bosibl cyfanswm y sylweddau actif a ddefnyddir dros amser. Ni fydd y dangosydd llwyth yn rhoi darlun llawn o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio plaleiddiaid, sy'n dibynnu ar amgylchiadau penodol y defnydd yn ogystal ag amlygiad pobl a'r amgylchedd, ond bydd yn welliant ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd a ddefnyddir i amcangyfrif risgiau, megis y Dangosydd Risg wedi'i Chysoni Ewropeaidd.

Yn yr Alban, caiff gwybodaeth am dyfwyr yn yr Alban sy'n mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig ei chasglu a'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid. Mae'r canlyniadau yn dangos, er bod y defnydd o blaleiddiaid yn hanfodol i weithgarwch cynhyrchu cnydau yn yr Alban, fod pob sector hefyd yn mabwysiadu ystod o fesurau Rheoli Plâu Integredig. Mae'r gyfres hon o ddata a gesglir, ar y cyd ag ystadegau sy'n disgrifio'r defnydd o blaleiddiaid, wedi'i chynllunio i hysbysu Llywodraeth yr Alban am arferion diogelu cnydau.  Bydd hyn yn helpu i ddisgrifio a rhagweld ymateb tyfwyr i ffactorau ysgogi diogelu cnydau megis newidiadau yn y plaleiddiaid sydd ar gael, datblygiadau mewn technolegau diogelu cnydau ac effaith mentrau'r Llywodraeth i hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy o blaleiddiaid.

**Defnyddio plaleiddiaid yn y sector amwynder**

Cyfyngedig yw'r ymchwil bresennol i'r defnydd o blaleiddiaid yn y sector amwynder am ei bod hi'n anodd cael samplau cynrychioliadol o'r rhai sy'n defnyddio neu'n comisiynu gwasanaethau rheoli plâu yn y sector amwynder. Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o fonitro defnydd yn y dyfodol, drwy ddefnyddio data ar werthiannau o bosibl.

### 2.10.2 Dangosyddion amgylcheddol

Mae plaleiddiaid wedi'u cynllunio i amharu ar brosesau bywyd ac felly mae risgiau i'r amgylchedd yn gysylltiedig â'u defnyddio. Er mwyn sicrhau'r defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid, bydd angen i ni ddeall y risgiau hyn ac effeithiau plaleiddiaid ar yr amgylchedd.

Mae ein systemau monitro amgylcheddol presennol yn cynnwys mesur allyriadau ac amlygiad yn ogystal ag arwyddion o dueddiadau o ran helaethrwydd rhywogaethau, megis y rhai ar gyfer adar a phryfed ffermdir. Mae dangosyddion ar gyfer amlygiad ac effeithiau niweidiol cemegion ar fywyd gwyllt yn yr amgylchedd wrthi'n cael eu datblygu fel rhan o fframwaith dangosyddion canlyniadau Defra ar gyfer y Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd. Bwriedir iddynt olrhain newidiadau yn amlygiad bywyd gwyllt i gemegion niweidiol mewn ecosystemau dŵr croyw, morol, arfordirol a daearol, gan gynnwys organebau ac iechyd priddoedd. Mae'r cwmpas yn cynnwys amlygiad bywyd gwyllt i blaleiddiaid drwy'r Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt (Atodiad 1 – Tabl 1 Is-bennawd 8.3), yn ogystal ag amlygiad amgylcheddol i gemegion eraill drwy ddangosydd H4 (H4 – Amlygiad ac effeithiau niweidiol cemegion ar fywyd gwyllt yn yr amgylchedd). Mae dangosydd H4 yn un o gyfres o ddangosyddion sy'n cael eu datblygu i fonitro cynnydd tuag at nodau'r Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd. Diben dangosydd H4 yw olrhain newidiadau yn amlygiad bywyd gwyllt i gemegion mewn ecosystemau dŵr croyw, morol a daearol, ac ystyried y risg i fywyd gwyllt.

**Dŵr**

Mae cyflenwadau dŵr ac amgylcheddau dyfrol yn agored iawn i lygredd o ganlyniad i blaleiddiaid. Er mwyn deall effaith defnyddio plaleiddiaid ar ansawdd ein cyrff dŵr daear a dŵr wyneb, rydym yn gweithio gyda chwmniau dŵr, gan fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar risg i fonitro: cyrff dŵr daear, sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr daear; a chyrff dŵr wyneb er mwyn asesu cydymffurfiaeth ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Hefyd, rydym yn monitro Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb lle mae risg i ansawdd dŵr heb ei drin a dynnir (Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 7). Mae'r data yn dangos cydymffurfiaeth gyffredinol barhaus heb fawr ddim newid, os o gwbl, yn nifer y cyrff dŵr sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o lefelau sydd eisoes yn isel (Atodiad 1 – Tabl 1, is-benawdau 7.2-7.5). Fodd bynnag, ceir diffyg cydymffurfio o tua 25% yn rheolaidd mewn Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn monitro nifer yr achosion o lygredd a gadarnhawyd (ar gyfer tir, aer neu ddŵr) sy'n cynnwys plaleiddiaid, sydd wedi lleihau rhwng 2012 a 2017 (Atodiad 1 – Tabl 1, is-bennawd 7.6). Yn ogystal â'r uchod rydym yn mynd ati i fonitro ardaloedd a gwmpesir gan Ffermio Sensitif i Ddalgylch

Afon yn Lloegr o leiaf unwaith yr wythnos er mwyn rhoi darlun manwl o amseriad crynodiadau o blaleiddiaid mewn dŵr. Er bod y metrigau hyn yn ein helpu i ddeall y graddau y mae plaleiddiaid yn effeithio ar ansawdd dŵr ac ecosystemau dyfrol i ryw raddau, er mwyn cael darlun llawnach, byddwn yn ceisio meithrin ein dealltwriaeth o effaith plaleiddiaid ar yr amgylchedd dyfrol a diogelwch dŵr. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo gweithgarwch samplu gwaddodion dyfrol a phriddoedd daearol ar gyfer gweddillion plaleiddiaid er mwyn deall yr effeithiau amgylcheddol yn well mewn nifer o adrannau amgylcheddol.

Yn yr Alban, mae'r Grwp Cynghori ar Reoli Llygredd Gwasgaredig wedi bod ar waith ers 2010, ac mae'n cynnwys nifer o randdeiliaid gwledig allweddol. Chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o baratoi canllawiau “Know the Rules” ar arferion gorau. Hefyd, cyflwynodd yr Alban reolaethau ar daenu plaleiddiaid drwy reol gyfrwymol gyffredinol yn Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Gweithgareddau Rheoledig) (Yr Alban) 2011, gyda diwygiadau pellach yn 2017. Roedd y rheoliadau hyn yn ategu'r rhaglen o fesurau yng Nghynllun Rheoli Dalgylch Basn Afon yr Alban. Fel rhan o'r dull dalgylch â blaenoriaeth, ymwelwyd â thros 4,000 o ffermydd er mwyn rhoi cyngor ar arferion gorau a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth. Bydd y fenter hon yn parhau yn yr ail Gynllun Rheoli Basn Afon. Er mwyn cefnogi rheolwyr tir, mae gwefan benodol, Ffermio a Dŵr yr Alban, yn cynnig hwb gwybodaeth un stop ar gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a chyngor arfer dda ar weithgareddau a allai effeithio ar yr amgylchedd dŵr.

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff profion sgrinio plaleiddiaid eu cynnal yn rheolaidd fel rhan o weithgarwch monitro ansawdd dŵr blynyddol Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn cynnal asesiad blynyddol o ansawdd dŵr yfed ar ran NI Water. Mae adroddiadau ar y gydymffurfiaeth â'r safonau ansawdd dŵr yfed a'r tablau ansawdd dŵr yfed yn rhoi manylion am barthau cyflenwi dŵr unigol lle na chafwyd cydymffurfiaeth lawn â'r safonau rheoliadol. Caiff dŵr yfed ei samplu i sicrhau bod unrhyw olion o blaleiddiaid unigol sy'n bresennol, o ganlyniad i'r defnydd o blaleiddiaid, yn cyrraedd y Safonau Cemegol Seiliedig ar Iechyd Ewropeaidd, sef 0.10µg/l.

Yn 2009, cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o Gynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer pob Ardal Basn Afon yng Ngogledd Iwerddon. Roedd y cynlluniau'n nodi ble mae amgylchedd dŵr Gogledd Iwerddon mewn cyflwr gwael, gweddol, da neu ragorol ac yn nodi amcanion ar gyfer gwella neu atal dirywiad. Yn 2015, cyhoeddwyd yr ail gyfres o gynlluniau a oedd yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a'r cynnydd a wnaed. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi mesurau atodol i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a tharddleoedd penodol o lygredd mewn dyfroedd wyneb a daear o ganlyniad i gemegion ac amaethyddiaeth drwy leihau faint o blaleiddiaid a ddefnyddir. Yn ogystal â'r fframweithiau deddfwriaethol a oedd eisoes wedi'u sefydlu, roedd y camau gweithredu yn cynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth er mwyn hyrwyddo arferion gorau wrth ddefnyddio plaleiddiaid ar y fferm ac annog awdurdodau lleol i beidio â defnyddio plaleiddiaid wrth reoli mannau glas.

Yn 2013, sefydlwyd y Bartneriaeth Dalgychoedd Dŵr i helpu i fynd i'r afael â phroblemau ansawdd dŵr a oedd yn gysylltiedig â phlaleiddiaid yng Ngogledd Iwerddon. Mae hon yn bartneriaeth waith â chynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Ulster, Northern Ireland Water, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), y Coleg Amaeth,

Bwyd a Menter Wledig a'r Fenter Wirfoddol. Nod y bartneriaeth yw rhoi neges unedig sy'n ymgorffori ethos pob sefydliad er mwyn mynd i'r afael â phroblem plaleiddiaid yn yr amgylchedd dŵr yn effeithiol; yn enwedig mewn dalgylchoedd dŵr yfed.

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro'r rhwydwaith afonydd o ran plaleiddiaid o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol ac mae mesurau rheoleiddio sylfaenol yn parhau i reoli unrhyw effaith ar ecoleg. Yng Nghynlluniau Rheoli Basn Afon 2021, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno adroddiad ar rai plaleiddiaid newydd ac, mewn rhai achosion, yn erbyn safonau tynnach. Felly, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi estyn y rhaglen fonitro, gan gynnwys rhai hapsamplau o golofnau dŵr, ac mae hefyd yn cynyddu'r defnydd o fonitorau goddefol, sy'n debygol o allu nodi llygredd ysbeidiol.

Yn 2017, sefydlodd Fforwm Rheoli Tir Cymru is-grŵp i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol, gan gynnwys y defnydd o blaleiddiaid. Mae'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol megis NFU Cymru, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Dŵr Cymru, Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, Hybu Cig Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae Dŵr Cymru wedi cwblhau rhaglen ymchwilio i blaleiddiaid a'u monitro yn ddiweddar er mwyn nodi risgiau i ansawdd dŵr heb ei drin mewn dalgylchoedd a ddefnyddir ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus. Mae'r rhaglen wedi nodi 17 o ddalgylchoedd ledled Cymru lle mae plaleiddiaid yn achosi risg a bydd Dŵr Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid dros y pum mlynedd nesaf i roi mesurau gwirfoddol ar waith i ddiogelu ansawdd dŵr.Bydd prosiect PestSmart yn annog pobl ledled Cymru i ystyried ffyrdd 'mwy deallus' o reoli chwyn, plâu a chlefydau nad ydynt yn effeithio ar bobl, dŵr na bywyd gwyllt. Gan weithio gyda ffermwyr, tyfwyr, perchenogion tir a garddwyr, bydd yn helpu pobl a chymunedau i ystyried y ffordd y maent yn rheoli eu tir er mwyn helpu i ddiogelu ansawdd dŵr heb ei drin.

**Bywyd gwyllt a bioamrywiaeth**

Mae Fframwaith Dangosyddion CGC 2013 y DU yn cynnwys mesurau ar gyfer bywyd gwyllt a bioamrywiaeth (Atodiad 1 – Tabl 1, Pennawd 8). Mae'r metrigau hyn yn canolbwyntio ar boblogaethau o adar gwyllt (Atodiad 1 – Tabl 1, is-bennawd 8.1 ac 8.2), mynegeion bwyd cywion (Atodiad 1 – Tabl 1, is-benawdau 8.8 ac 8.9) a chyfraddau goroesi cywion petris (Atodiad 1 – Tabl 1, is-bennawd 8.10) sy'n gweithredu fel procsi dros iechyd yr amgylchedd ehangach. Mae bwyd cywion sydd ar gael yn eang yn golygu poblogaethau iach o bryfed ac, yn yr un modd, mae poblogaethau ffyniannus o adar gwyllt yn golygu bod ffactorau anthropogenig yn cael llai o effaith ar fioamrywiaeth ehangach. Mae tuedd hirdymor y metrigau hyn yn dangos cryn ddirywiad sydd wedi'i ddogfennu'n helaeth ond mae data mwy diweddar yn dangos bod y dirywiad wedi arafu ac na fu unrhyw newid ym mhoblogaethau adar y DU na mynegeion bwyd cywion rhwng 2012 a 2017. Mae'r dirywiad wedi arafu yn fwy diweddar; cafwyd gostyngiad sylweddol o 6% yn y mynegai adar ffermdir wedi'i lyfnhau rhwng 2012 a 2017.

Mae fframwaith dangosyddion CGC 2013 yn rhoi trosolwg da o fioamrywiaeth ffermdir ond gellir ei ddatblygu i gynnwys ardaloedd anamaethyddol eraill lle mae plaleiddiaid yn cael effaith. Mae'r Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt yn nodi ac yn ymchwilio i achosion o wenwyno bywyd gwyllt ac anifeiliaid anwes, gan asesu ble mae llygredd plaleiddiaid yn digwydd. Mae'r Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt yn cynnig cyfle i lywio gweithgarwch gorfodi ond nid yw'n darparu data cymharol i gael darlun clir o'r newidiadau yn effeithiau defnydd amatur a defnydd amwynder dros amser. Er mwyn deall y sectorau hyn yn well, byddwn yn cynnwys metrigau a fydd yn canolbwyntio ar boblogaethau o fywyd gwyllt gardd, megis draenogod ac adar gardd, er mwyn helpu i nodi'r angen am ymchwil bellach i effeithiau posibl o ganlyniad i'r defnydd anamaethyddol o blaleiddiaid.

Er mwyn cyflawni ein nodau ehangach ar gyfer bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni weithio i gael darlun mwy eglur o'r ffordd y mae plaleiddiaid yn effeithio ar yr amgylchedd a gweithredu i liniaru'r effeithiau hyn. Lle ceir bylchau mewn gwybodaeth, byddwn yn anelu at ddatblygu dangosyddion amgylcheddol newydd er mwyn gwella ein dealltwriaeth o risgiau ac effeithiau plaleiddiaid o ran yr amgylchedd. Dylai dangosyddion amgylcheddol: anelu at fod mor gynrychioliadol o'r ecosystem â phosibl; adweithio'n gyflym i newid amgylcheddol niweidiol; bod yn hawdd eu llunio, eu dadansoddi a'u cyfleu i lunwyr polisi a'r cyhoedd. Dylai rhai dangosyddion amgylcheddol hefyd ymwneud â sectorau penodol er mwyn adlewyrchu'r pwysau gwahanol a roddir ar yr amgylchedd gan ddiwydiannau gwahanol. Gan adeiladu ar ein gwaith presennol, byddwn yn sicrhau tystiolaeth ychwanegol ac yn ymestyn y set o ddangosyddion amgylcheddol sy'n cael eu monitro er mwyn cael darlun mwy eglur o effeithiau plaleiddiaid ar yr amgylchedd ac o ble y daw'r effeithiau hynny.

**Pryfed peillio**

Mae pryfed peillio yn darparu gwasanaeth hollbwysig i'r sector amaethyddol ac yn chwarae rôl bwysig mewn ecosystemau. Fel y cyfryw, maent yn agored iawn i effeithiau plaleiddiaid. Amlinellir ymrwymiadau'r llywodraethau i gefnogi pryfed peillio yn ein strategaethau pryfed peillio cenedlaethol:

- Yn Lloegr, mae'r Strategaeth Pryfed Peillio Genedlaethol yn nodi sut y gall y Llywodraeth, grwpiau cadwraeth, ffermwyr, gwenynwyr ac ymchwilwyr weithio gyda'i gilydd i wella statws rhywogaethau o bryfed peillio yn Lloegr.
- Lansiwyd Strategaeth Pryfed Peillio'r Alban (2017-2027) yn 2017 ynghyd â Chynllun Gweithredu ategol, sydd â'r nod o sicrhau'r canlynol erbyn 2027:
    - y bydd camau gweithredu i gefnogi pryfed peillio wedi'u hymgorffori'n gadarn mewn strategaethau, polisïau ac arferion perrthnasol ym mhob rhan o'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus;
    - y caiff ein dealltwriaeth o ecoleg, statws a thueddiadau o ran pryfed peillio ei gwella er mwyn sicrhau bod polisïau ac arferion yn cael eu llywio gan y dystiolaeth orau;
    - y bydd rheoleiddio gweithgarwch mewnforio gwenyn mêl a chacwn yn lleihau'r risgiau o gyflwyno plâu a chlefydau newydd;
    - y caiff diwydiannau lleol sy'n seiliedig ar wenwyn eu cefnogi'n well;

  - y byddwn wedi meithrin dealltwriaeth eang o werth pryfed peillio'r Alban ac wedi sicrhau cefnogaeth gref ymhlith y cyhoedd i adfer poblogaethau a chynefinoedd, ac y byddwn yn monitro poblogaethau ac yn ymchwilio i fioamrywiaeth pryfed peillio;
  - y bydd rhwydwaith cadarn o gynefinoedd pryfed peillio o ansawdd da ar waith;
  - y gellir dangos bod pryfed peillio'r Alban yn ffynnu.
- Lansiwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio yn 2013 gyda'r nod o leihau a gwrthdroi dirywiad pryfed peillio yng Nghymru. Mae uchelgeisiau'r cynllun yn cynnwys: creu mwy o gynefinoedd llawn blodau amrywiol; cynnal poblogaethau iach a chynaliadwy o bryfed peillio; codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth; annog camau gweithredu cadarnhaol gan bawb; a chreu sylfaen dystiolaeth i lywio camau gweithredu yn y dyfodol.
- Mae Gogledd Iwerddon wedi'i gwmpasu gan Gynllun Pryfed Peillio Iwerddon Gyfan 2015-2020 sy'n cydnabod y defnydd o blaleiddiaid fel un o'r pwysau sy'n achosi'r dirywiad o ran pryfed peillio Iwerddon. Mae'r cynllun yn nodi 81 o gamau gweithredu i helpu i ddarparu cynefinoedd a bwyd llawn neithdar i bryfed peillio, gan amlinellu'r hyn y gellir ei wneud yn y sector amaethyddol a'r sector amwynder cyhoeddus a chan arddwyr cartref, gan gynnwys lleihau'r defnydd o blaleiddiaid a chemegion niweidiol.

Ar hyn o bryd, caiff pryfed peillio eu monitro o dan y strategaethau hyn ar lefel y DU gan mai dangosydd bioamrywiaeth D1C y DU sy'n adrodd ar statws pryfed peillio. Fodd bynnag, er mwyn deall effeithiau plaleiddiaid ar bryfed peillio, rydym yn mynd ati i gynnwys mesurau penodol ar beryglon i bryfed peillio fel rhan o'n cyfres o ddangosyddion amgylcheddol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio Cynghori ar Bryfed Peillio a Grŵp Trosglwyddo Gwybodaeth y Fforwm Plaleiddiaid er mwyn asesu'r wybodaeth bresennol am Reoli Plâu Integredig a datblygiadau ym maes ymchwil gymhwysol. Byddwn yn adolygu'r canllawiau ac yn datblygu arferion gorau er mwyn hyrwyddo dull integredig, yn unol â'n Strategaethau Pryfed Peillio Cenedlaethol.

### 2.10.3 Y nodau presennol

Bydd cyflawni amcanion cyffredinol y CGC yn chwarae rôl allweddol i helpu i gyflawni nodau a thargedau ehangach ar gyfer sicrhau amgylchedd gwell i genedlaethau'r dyfodol.

Yn Lloegr, mae'r Cynllun Amgylchedd 25-mlynedd yn cynnwys targedau i wneud y canlynol:

- gwella o leiaf dri chwarter ein dyfroedd er mwyn iddynt fod yn agos i'w cyflwr naturiol cyn gynted ag y bo'n ymarferol;
- adfer 75% o'n miliwn hectar o safleoedd gwarchodedig dŵr croyw a daearol i gyflwr ffafriol, gan sicrhau eu gwerth i fywyd gwyllt yn yr hirdymor;
- adfer rhywogaethau sydd o dan fygythiad, rhywogaethau eiconig neu rywogaethau economaidd bwysig o anifeiliaid, planhigion a ffyngau.

Yng Nghymru, mae Polisi Adnoddau Naturiol Gweinidogion Cymru yn nodi ein tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru. Cafodd y rhain eu datblygu i helpu i gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu a'n strategaeth genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb', sy'n cefnogi'r broses o'i rhoi ar waith. Mae'r blaenoriaethau hefyd yn ymgorffori cyfraniad ein Hadnoddau Naturiol ar gyfer pob un o'r Nodau Llesiant, ac yn mabwysiadu dull integredig, hirdymor yn unol â'n ffyrdd newydd o weithio.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yw:

- Cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau;
- Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cynllunio i weithio gyda'i gilydd i'n helpu i ymateb i heriau a gwireddu'r cyfleoedd y mae ein hadnoddau naturiol yn eu cynnig.

Mae Strategaeth Amgylchedd yr Alban yn nodi gweledigaeth ar gyfer amgylchedd yr Alban a'i rôl i fynd i'r afael â'r argyfyngau byd-eang o ran yr amgylchedd a hinsawdd, gan helpu i sicrhau llesiant pobl a'r blaned i'r cenedlaethau sydd i ddod. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd Llywodraeth yr Alban a'i phartneriaid yn canolbwyntio eu cyd-ymdrechion ar sicrhau chwe chanlyniad a rennir:

- Caiff natur yr Alban ei gwarchod a'i hadfer gan fioamrywiaeth ffyniannus ac aer, dŵr, moroedd a phriddoedd glân ac iach;
- Byddwn yn chwarae rôl lawn o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang a sicrhau nad yw'r tymheredd yn codi'n fwy na 1.5°C;
- Byddwn yn defnyddio ac yn ailddefnyddio adnoddau'n ddoeth ac wedi rhoi terfyn ar y diwylliant taflu;
- Mae economi gynaliadwy ffyniannus yr Alban yn gwarchod ac yn tyfu ein hasedau naturiol;
- Mae amgylchedd iach yr Alban yn cefnogi cymdeithas decach, iachach a mwy cynhwysol;

- Byddwn yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol sydd ag ôl troed rhyngwladol cynaliadwy.

Mae Strategaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon ar gam cynnar yn ei datblygiad. Nodwyd chwe chanlyniad drafft, gan gynnwys:

- atal y broses o golli bioamrywiaeth, cynnal ecosystemau mewn cyflwr iach, a thirweddau wedi'u rheoli'n dda;
- sicrhau gweithgarwch traul a chynhyrchu cynaliadwy ar dir a môr;
- aer, dŵr, tir a chymdogaeth o ansawdd rhagorol.

Bwriedir i'r canlyniadau hyn gwmpasu amrywiaeth o faterion amgylcheddol lefel uchel allweddol.

Bydd sicrhau trefniadau rheoleiddio cadarn a'r defnydd diogel o blaleiddiaid, yn ogystal â chefnogi'r broses o fabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig, oll yn gwneud cyfraniad allweddol er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

## 2.10.4 Monitro ac asesu risg

Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r cynlluniau monitro presennol sy'n casglu data ar weddillion plaleiddiaid mewn bwyd, ac ar effeithiau niweidiol cofnodedig ar iechyd pobl o ganlyniad i ddod i gysylltiad â phlaleiddiaid.

**Lefelau Gweddillion Uchaf**

Y darlun cyffredinol a ddaw o'r data ar weddillion plaleiddiaid mewn bwyd yw bod lefel uchel o gydymffurfiaeth, gyda lefelau cyson isel o weddillion uwchlaw'r Lefelau Gweddillion Uchaf yn cael eu canfod mewn samplau o ffrwythau a llysiau (Atodiad 1 – Tabl 1, 5.3). Gwelir tuedd tuag i lawr hefyd yn nifer yr achosion o effaith niweidiol ar iechyd pobl a gofnodir. Pennir Lefelau Gweddillion Uchaf yn gyfreithiol ar y lefel uchaf o blaleiddiad y byddai'r corff rheoleiddio perthnasol yn disgwyl ei chanfod yn y cnwd hwnnw pan fydd wedi'i drin yn unol ag arferion amaethyddol da. Os bydd lefel uwch o weddillion mewn bwyd na'r Lefel Gweddillion Uchaf, nid yw'n golygu o reidrwydd nad yw'r bwyd yn ddiogel i'w fwyta. Gall gweddillion uwchlaw'r Lefel Gweddillion Uchaf ddangos nad yw'r ffermwr na'r tyfwr wedi defnyddio'r plaleiddiad yn gywir.

**Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau**

Mae'r data a ddarperir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau yn cofnodi achosion manwl a atgyfeirir gan weithwyr iechyd proffesiynol ac, ar hyn o bryd, dyma ein harwydd gorau o'r patrwm o wenwyno acíwt o ganlyniad i blaleiddiad. Dros y naw mlynedd diwethaf, mae'n dangos lleihad cyffredinol yn nifer yr achosion o wenwyndra difrifol o ganlyniad i amlygiad i blaleiddiad. Dangosir bod y rhan fwyaf o achosion o amlygiad yn acíwt ac yn anfwriadol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys cynhyrchion plaleiddiaid (i'r cartref a'r ardd) amatur (Atodiad 1 – Tabl 1, 5.2).

Mae rhagor o wybodaeth am dueddiadau ar gael yn yr adroddiad mwyaf diweddar gan y Pwyllgor Arbenigol ar Weddillion Plaleiddiaid mewn Bwyd, a chrynhoir y data hefyd yn Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Plaleiddiaid.

**Astudiaethau iechyd**

Sefydlwyd yr Astudiaeth o Iechyd Defnyddwyr Plaleiddiaid (PUHS) gan HSE a'r astudiaeth ddilynol, Ymchwiliad Rhagolygol i Iechyd Taenwyr Plaleiddiaid (PIPAH), er mwyn ymchwilio i afiechyd cronig sy'n codi o ganlyniad i amlygiad galwedigaethol i blaleiddiaid. Caiff dadansoddiad pellach o'r data hyn ei gefnogi fel ffordd o asesu effeithiau cronig posibl amlygiad i blaleiddiaid. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â mesur effeithiau cronig plaleiddiaid, megis anhawster i gyfrif am batrymau newidiol o ddefnydd a sylweddau a ddefnyddir dros amser.

Rydym yn adolygu ein system o gasglu gwybodaeth am achosion o wenwyno acíwt neu gronig o ganlyniad i blaleiddiaid drwy'r amser, er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn ymgorffori unrhyw ddatblygiadau newydd. Byddwn yn parhau i gadw llygad am unrhyw effeithiau niweidiol wrth i'r ddealltwriaeth wyddonol gynyddu, a byddwn yn parhau i graffu ar dystiolaeth sy'n datblygu ynghylch effeithiau niweidiol posibl a'u hachosion.

Dros gyfnod y CGC, byddwn yn ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y potensial i ddatblygu rhaglen fiofonitro i bobl, er mwyn monitro amlygiad poblogaeth y DU i blaleiddiaid a hefyd gemegion eraill.

## 2.11 Cwestiynau ar Nod 4 – Targedau, Metrigau a Dangosyddion

**Cwestiwn 22** – Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer casglu data ar y defnydd o blaleiddiaid ac ymchwilio iddo?

**Cwestiwn 23** – Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwilio i effaith amgylcheddol plaleiddiaid?

**Cwestiwn 24** – Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer ymchwilio i effaith plaleiddiaid ar iechyd?

**Cwestiwn 25** – Pa awgrymiadau sydd gennych ar gyfer ffyrdd o fesur ein cynnydd yn erbyn y nodau a amlinellir yn y CGC hwn?

## 2.12 Nod 5 – Cyflawni'r CGC

Goruchwylir y CGC a'r broses o'i gyflawni gan Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a DAERA yng Ngogledd Iwerddon. Caiff y broses hon ei gweinyddu a'i chefnogi hefyd gan reoleiddiwr plaleiddiaid y DU, Cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ynghyd ag amrywiol asiantaethau'r llywodraethau, yn bennaf Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban. Mae adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraethau hefyd yn weithredol mewn elfennau penodol o'r CGC.

Cyflawnir y CGC mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai o ddiwydiant, amaethyddiaeth, yr amgylchedd, addysg a sectorau eraill. Mae'r CGC hefyd yn cael ei ddatblygu drwy roi cyfranogiad y cyhoedd wrth ei wraidd, a rhoi cyfle i unrhyw barti â diddordeb fynegi barn drwy'r broses ymgynghori – mae hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu ar y cyd yn diwallu anghenion pawb sy'n defnyddio plaleiddiaid, y cyhoedd a'r amgylchedd.

Er mwyn **sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol gydag eraill i gyflawni nodau'r CGC**, byddwn yn:

- ***Adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r CGC er mwyn hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid a dulliau Rheoli Plâu Integredig. Byddwn yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r diwydiant.***

Mae'n fuddiol i bawb bod plaleiddiaid yn cael eu defnyddio cyn lleied ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn modd cyfrifol a chynaliadwy. Fel y cyfryw, mae'n hollbwysig bod pawb sy'n defnyddio plaleiddiaid yn cymeradwyo'r dull gweithredu a nodir yn y CGC ac yn cydnabod ei rôl hanfodol o ran sicrhau ei lwyddiant drwy wneud y canlynol:

- Mabwysiadu dull cwbl integredig o reoli plâu sy'n lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylchedd i'r eithaf;
- Cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol a gofynion cofnodi ar gyfer plaleiddiaid;
- Cydymffurfio â Chodau Ymarfer a dilyn canllawiau, gan gynnwys canllawiau grwpiau diwydiant, ar ddefnyddio plaleiddiaid sy'n briodol i'r sefyllfa leol;
- Cefnogi'r mesurau yn y cynllun hwn sy'n berthnasol i'w sector.

Rhoddir egwyddorion Rheoli Plâu Integredig ar waith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant a chyrff sefydliadol anllywodraethol. Bydd angen amrywiaeth eang o arbenigedd i gyflawni ein hamcanion ynglŷn â diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd a chefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd ar yr un pryd. Byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r CGC er mwyn cynyddu nifer y defnyddwyr plaleiddiaid sy'n mabwysiadu dulliau Rheoli Plâu Integredig. Fel rhan o hyn, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru rôl y Fforwm Plaleiddiaid a'i grwpiau cysylltiedig o randdeiliaid ac yn gweithio gyda'r Fenter Wirfoddol a'r Fforwm Amwynder i greu partneriaethau traws-sector er mwyn mesur llwyddiant, hyrwyddo arferion gorau a sicrhau gwelliant yn y defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid.

## 2.13 Cwestiynau i Gloi

**Cwestiwn 26** – Beth yw'r ffordd orau o ddwyn rhanddeiliaid â buddiannau amrywiol ynghyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r CGC, gan weithio tuag at y nod cyffredin o reoli plâu mewn ffordd gynaliadwy?

**Cwestiwn 27** – O ystyried y CGC yn ei gyfanrwydd, pa sylwadau ac awgrymiadau eraill yr hoffech chi eu gwneud yn ychwanegol at y rhai a gwmpesir gan gwestiynau blaenorol?

Mae'r CGC yn adlewyrchu datblygiadau ers i'r fersiwn wreiddiol gael ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2013. Mae'r ddogfen hon yn gynrychioliadol o'r cynlluniau dros y pum mlynedd nesaf ac rydym yn cydnabod y gall mentrau'r llywodraeth a mentrau anllywodraethol newid yn ystod y cyfnod hwn, a byddwn yn croesawu sylwadau ar unrhyw adeg.

# 3 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 2013 y DU ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid Adolygiad o'r Dangosyddion

### Rhagfyr 2020

## 3.1 Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol (CGC) cyntaf y DU ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid yn 2013, gyda chyfres o ddangosyddion meintiol ac ansoddol i fonitro sut mae plaleiddiaid yn cael eu defnyddio a'u heffaith. Mae'r dangosyddion yn cwmpasu:

- Arolygon o'r defnydd o blaleiddiaid yn y sector amaethyddol a sectorau anamaethyddol;
- Canlyniadau arolygiadau fferm;
- Ystadegau ar gnydau a'r dulliau rheoli sydd ar gael;
- Cyfraddau mabwysiadu mentrau'r diwydiant a'u heffaith;
- Monitro effeithiau defnyddio plaleiddiaid ar iechyd pobl, ansawdd dŵr a'r amgylchedd.


Mae dangosyddion yn adnoddau defnyddiol i grynhoi a chyfleu tueddiadau cyffredinol. Maent yn anelu at ddangos newidiadau ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu cynnydd o ran y dangosyddion hyn hyd yma ac yn rhoi trosolwg lefel uchel. Datblygwyd y dangosyddion mewn partneriaeth â'r Fforwm Plaleiddiaid. Mae'r Fforwm Plaleiddiaid wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion hyn. Bwriedir i'r atodiad hwn ategu'r wybodaeth a gyflwynir yn Adroddiadau'r Fforwm Plaleiddiaid ac felly ni chyflwynir pob dangosydd. Mae adroddiad mwyaf diweddar (2018) y Fforwm Plaleiddiaid ar gael ar-lein.

(https://webcommunities.hse.gov.uk/connect.ti/pesticidesforum/view?objectId=56979&exp=e1)

Mae Ffigur 1 yn dangos y fframwaith dangosyddion fel y'i cyhoeddwyd yn CGC 2013.[4] Roedd hwn yn seiliedig ar y fframwaith dangosyddion a gyhoeddwyd gyntaf yn Atodiad B i adroddiad blynyddol 2011 y Fforwm Plaleiddiaid (Fforwm Plaleiddiaid, 2012).

[4] Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU, Atodiad 3: Rhestr o ddangosyddion a fframwaith 2011 y DU, https://www.gov.uk/government/publications/pesticides-uk-national-action-plan. 2013

**Ffigur 1.** Fframwaith dangosyddion CGC 2013 y DU




**Ffynhonnell:** Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)
Chwefror 2013.

## 3.2 Trosolwg o'r asesiad o newid ar gyfer dangosyddion CGC 2013

## 3.3 Asesu dangosyddion


Caiff pob dangosydd ei grynhoi neu ei asesu ar wahân, gan ddefnyddio set o 'oleuadau traffig'. Mae'r goleuadau traffig yn dangos 'newid dros amser'. Nid ydynt yn dangos a yw'r mesur wedi cyrraedd unrhyw dargedau cyhoeddedig nac ymhlyg, nac yn wir a yw'r statws yn 'dda' neu'n 'ddrwg'. Gwneir yr asesiad gan ddadansoddwyr y llywodraeth a phennir goleuadau traffig drwy:

1) nodi'r duedd gyffredinol yn y cyfnod dan sylw drwy asesu a fu tuedd gyson tuag i fyny neu tuag i lawr;


2) cyfrifo a yw'r newid yn fwy na gwerth trothwy o 3%.


Mae'r trothwy o 3% yn un mympwyol ac fe'i dewiswyd am ei fod yn drothwy cyffredin yn nangosyddion eraill y llywodraeth. Os oes tuedd gyson yn y data a gwahaniaeth o 3% rhwng blwyddyn gyntaf a blwyddyn olaf y cyfnod, yna bydd yr asesiad o newid naill ai'n 'symud i'r cyfeiriad a ddymunir' neu'n 'symud i ffwrdd o'r cyfeiriad a ddymunir', yn dibynnu ar y newid cyfeiriad tuag at ddefnydd cynaliadwy y mae'r dangosyddion yn ei ddymuno. Pan fydd gwerth dangosydd wedi newid lai na'r trothwy o 3% a/neu fod y duedd rhwng yr adegau yn anghyson, mae'r golau traffig wedi'i bennu'n 'dim newid cyfeiriad clir'. Ar gyfer rhai dangosyddion, mae 'dim newid cyfeiriad clir' yn ddymunol oherwydd efallai fod y dangosydd eisoes wedi cyrraedd y lefelau a ddymunir ac felly gall 'dim newid cyfeiriad clir' awgrymu bod defnydd cynaliadwy o blaleiddiaid yn parhau. Os nad yw'r data ar gael, os nad yw'r data yn cael eu casglu mwyach neu os nad yw'n addas eu cymharu dros flynyddoedd gwahanol, nodir bod 'data annigonol neu dim data cymaradwy'.


Gweler yr allwedd ar gyfer yr asesiad o newid yn y tabl cryno (tabl 1):

 = symud i'r newid cyfeiriad a ddymunir

 = dim newid cyfeiriad clir

 = symud i ffwrdd o'r cyfeiriad a ddymunir

 = data annigonol neu dim data cymaradwy.

 Mae saethau i fyny neu i lawr yn dangos a yw'r dangosydd yn cynyddu neu'n gostwng yn rhifol.





**Tabl 1.** Crynodeb o'r asesiadau goleuadau traffig ar gyfer dangosyddion CGC 2013, gan gynnwys asesiad o newid hirdymor a byrdymor.

| Dangosydd | Ffynhonnell | Cwmpas | Data Diwed daraf | Newid Hirdymor[5] | Newid Byrdymor[6] |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Defnydd o Blaleiddiaid** | | | | |
| **1.1** Defnydd o blaleiddiaid: defnydd blynyddol amcangyfrifedig ar gyfer pob cnwd ym Mhrydain Fawr (tunelli o sylwedd actif a ddefnyddiwyd) | Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid, Fera | Prydain Fawr a'r DU | 2018 |  |  |
| **1.2** Ardaloedd lle tyfir cnydau (mewn hectarau) yn y DU. | Defra | Y DU | 2019 |  |  |
| **1.3** Mewnbynnau cyfartalog o blaleiddiaid fesul cnwd, gan gynnwys sterilyddion pridd. | Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid, Fera | Prydain Fawr a'r DU | 2018 |  |  |
| **1.4** Mewnbynnau cyfartalog o blaleiddiaid fesul cnwd, heb gynnwys sterilyddion pridd. | Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid, Fera | Prydain Fawr a'r DU | 2018 |  |  |
| **1.5** Mewnbynnau cyfartalog o blaleiddiaid ar gyfer gwenith (kg o sylwedd actif a ddefnyddiwyd fesul cnwd) ym Mhrydain Fawr. | Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid, Fera | Prydain Fawr a'r DU | 2018 |  |  |
| **1.6** Y defnydd o lysleiddiaid ar wenith (nifer y cynhyrchion a chyfanswm y dosau o sylweddau actif yr hectar) | Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid, Fera | Prydain Fawr a'r DU | 2018 |  |  |
| **2** | **Hyfforddiant a Phrofi** | | | | |

[5] Mae'r asesiad o newid hirdymor yn cyfeirio at 10 mlynedd cyn y flwyddyn ddiweddaraf. Dangosir y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddir ar gyfer pob mesur yn y tabl.

[6] Daw'r asesiad o newid byrdymor o 5 mlynedd cyn y flwyddyn ddiweddaraf. Dangosir y flwyddyn ddiweddaraf a ddefnyddir ar gyfer pob mesur yn y tabl.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.1** Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Profi Chwistrellwyr – nifer y profion a % yr arwynebedd a chwistrellwyd. | Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Profi Chwistrellwyr | Y DU | 2018 | ↑ | ↑ |
| **2.2** Cofrestr Genedlaethol Gweithredwyr Chwistrellwyr (NRoSO) – nifer yr aelodau a % yr arwynebedd a chwistrellwyd. | City & Guilds | Y DU | 2018 | ↑ | ↑ |
| **2.3** Nifer yr aelodau o Gofrestrau Proffesiynol BASIS yn ôl categori. | BASIS | Y DU | 2018 | ↑ | ↑ |
| **2.4** Nifer yr aelodau o Gofrestrau Amwynder BASIS yn ôl categori. | BASIS | Y DU | 2018 | ••• | ↓ |
| **2.5** Nifer y rhai sydd wedi llwyddo yn y Cwrs Hyfforddi i Stôr-geidwaid Enwebedig/Cwrs Hyfforddiant Gloywi i Stôr-geidwaid Enwebedig | BASIS | Y DU | 2018 | ↑ | ↑ |
| **2.6** Nifer y rhai sydd wedi llwyddo yn y Cwrs Hyfforddiant Amwynder i Stôr-geidwaid Enwebedig/Cwrs Hyfforddiant Gloywi i Stôr-geidwaid Enwebedig | BASIS | Y DU | 2018 | ↑ | ↑ |
| **3** | **Rheoli Plâu Integredig** | | | | |
| **3.1** Cynlluniau rheoli diogelu cnydau (arwynebedd mewn hectarau). | Y Fenter Wirfoddol | Y DU | 2018 | ••• | ↑ |
| **4** | **Trawsgydymffurfio** | | | | |
| **4.1** Canlyniadau arolygiadau Trawsgydymffurfio ar gyfer y defnydd priodol o gynhyrchion diogelu planhigion (SMR 9 2013, SMR 10 2015-2018) yn Lloegr. | Asiantaeth Taliadau Gwledig Lloegr | Lloegr | 2018 | ••• | ↑ |
| **4.2** Canlyniadau arolygiadau Trawsgydymffurfio ar gyfer y defnydd priodol o gynhyrchion diogelu planhigion (SMR 9 2010-2014, SMR 10 2015-2016) yn yr Alban. | Llywodraeth yr Alban | Yr Alban | 2018 | ••• | ↔ |
| **4.3** Canlyniadau arolygiadau Trawsgydymffurfio ar gyfer y defnydd priodol o gynhyrchion diogelu planhigion (SMR 9 | DAERA Gogledd Iwerddon | Gogledd Iwerddon | 2016 | ••• | ↔ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2010-2014, SMR 10 2015-2016) yng Ngogledd Iwerddon. | | | | | |
| **4.4** Canlyniadau arolygiadau ar gyfer y defnydd priodol o gynhyrchion diogelu planhigion (SMR 9 2010-2014, SMR 10 2015-2016) yng Nghymru, lle y cynhelir 220 o arolygiadau Glastir a 180 o arolygiadau Trawsgydymffurfio bob blwyddyn. | Llywodraeth Cymru | Cymru | 2019 |  |  |
| **5** | **Iechyd Pobl** | | | | |
| **5.1** Diogelu iechyd pobl: Ymchwiliadau'r Panel Arfarnu Digwyddiadau Plaleiddiaid. | Ddim yn cael eu cofnodi mwyach | Prydain Fawr | 2015 /16 |  |  |
| **5.2** Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau: monitro effeithiau niweidiol amlygiad i blaleiddiaid ymhlith pobl. | Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau | Y DU | 2017 /18 |  |  |
| **5.3** Diogelu defnyddwyr: Cydymffurfiaeth â lefelau gweddillion uchaf – % y samplau o ffrwythau a llysiau a brofwyd ac y canfuwyd un math neu fwy o weddillion uwchlaw'r lefelau gweddillion uchaf ynddynt. | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / PriF | Y DU | 2017 |  |  |
| **6** | **Bioblaleiddiaid** | | | | |
| **6.1** Niferoedd cronnol sylweddau actif a chynhyrchion a gymeradwywyd fel bioblaleiddiaid, mewn unrhyw flwyddyn benodol. | Yr UE – Cronfa Ddata Plaleiddiaid | Y DU | 2018 |  |  |
| **7** | **Dŵr**[7] | | | | |
| **7.1** Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yn Lloegr lle mae asesiadau yn dangos bod plaleiddiaid yn peryglu cydymffurfiaeth ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb | Asiantaeth yr Amgylchedd | Lloegr | 2018 |  |  |

[7] Mae faint o ddata a gesglir ar ardaloedd gwarchodedig, cyrff dŵr daear a chyrff dŵr yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac felly nid ydym wedi asesu'r duedd dros amser drwy ddefnyddio'r system goleuadau traffig.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Dŵr. | | | | | |
| **7. 2** Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yng Nghymru lle mae asesiadau yn dangos bod plaleiddiaid yn peryglu cydymffurfiaeth ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. | Asiantaeth yr Amgylchedd | Cymru | 2016 | ••• | ••• |
| **7.3** Ardaloedd Diogelu Dŵr Yfed yn yr Alban sydd mewn perygl o fethu â chyflawni amcanion Erthygl 7 o ran plaleiddiaid. | Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) | Yr Alban | 2017 | ••• | ••• |
| **7.4** Cyrff dŵr daear yn Lloegr sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid. | Asiantaeth yr Amgylchedd | Lloegr | 2018 | ••• | ••• |
| **7.5** Cyrff dŵr daear yng Nghymru sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid. | Asiantaeth yr Amgylchedd | Cymru | 2016 | ••• | ••• |
| **7.6** Lleoliadau samplu dŵr daear yn yr Alban lle y canfuwyd un neu fwy o blaleiddiaid ar lefelau sydd mewn perygl o fynd yn uwch na 0.1ug/l. | Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) | Yr Alban | 2017 | ••• | ••• |
| **7.7** Cyrff Dŵr Wyneb yn Lloegr nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran Plaleiddiaid. | Asiantaeth yr Amgylchedd | Lloegr | 2017 | ••• | ••• |
| **7.8** Cyrff Dŵr Wyneb yng Nghymru nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran Plaleiddiaid. | Asiantaeth yr Amgylchedd | Cymru | 2015 | ••• | ••• |
| **7.9** Lleoliadau samplu dŵr daear lle y canfuwyd un neu fwy o blaleiddiaid ar lefelau sydd mewn perygl o fynd yn uwch na 0.1ug/l. | Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) | Yr Alban | 2017 | ••• | ••• |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **7.10** Nifer yr achosion o lygredd categori 1 a 2 a gadarnhawyd ar gyfer tir, aer neu ddŵr, sy'n cynnwys plaleiddiaid amaethyddol ac anamaethyddol. | Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban, DAERA | Y DU | 2018 | | |
| **8** | **Bywyd Gwyllt** | | | | | |
| 8.1 Poblogaethau o rywogaethau o adar ffermdir a ddewiswyd yn y DU. | Defra | Y DU | 2017 | | |
| 8.2 Poblogaethau o'r holl rywogaethau o adar yn y DU. | Defra | Y DU | 2017 | | |
| 8.3 Achosion o wenwyno o ganlyniad i blaleiddiaid y mae'r Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt wedi ymchwilio iddynt yn DU. | Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt | Y DU | 2017 | | |
| 8.4 Ardaloedd o opsiynau amaeth-amgylchedd gwahanol a ddefnyddir gan ffermwyr: Lloegr | Natural England | Lloegr | 2018 | | |
| 8.5 Ardaloedd o opsiynau amaeth-amgylchedd gwahanol a ddefnyddir gan ffermwyr: Yr Alban | Llywodraeth yr Alban | Yr Alban | 2019 | | |
| 8.6 Ardaloedd o opsiynau amaeth-amgylchedd gwahanol a ddefnyddir gan ffermwyr: Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cymru | 2018 | | |
| 8.7 Cynlluniau amaeth-amgylchedd: Gogledd Iwerddon | DAERA | Gogledd Iwerddon | 2018 | | |
| 8.8 Tuedd hirdymor yn y mynegai bwyd cywion adar ffermdir cyffredinol a fesurwyd mewn cnydau gwenith gaeaf yn ardal Astudiaeth Sussex yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt. | Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | Lloegr | 2017 | | |
| 8.9 Mynegai bwyd cywion petris a fesurwyd yng nghnydau gwenith gaeaf yn ardal Astudiaeth Sussex yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt. | Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | Lloegr | 2017 | | |
| 8.10 Cyfradd (%) goroesi cywion petris yn ardal | Yr Ymddiriedolaeth | Lloegr | 2017 | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Astudiaeth Sussex yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt. | Cadwraeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt | | | | |

## 3.4 Defnydd o Blaleiddiaid

Daw amcangyfrifon o'r defnydd o blaleiddiaid o'r Arolwg o'r Defnydd o Blaleiddiaid (PUS). Cesglir data gan Fera Science Ltd i Gymru a Lloegr, gan Asiantaeth Gwyddoniaeth Amaethyddol yr Alban i'r Alban a Sefydliad Amaeth-fwyd a Biowyddorau Gogledd Iwerddon i Ogledd Iwerddon. Mae'r PUS yn nodi crynswth y plaleiddiaid a ddefnyddiwyd, nifer y cynhyrchion/sylweddau actif a daenwyd, amlder y triniaethau a'r arwynebedd y defnyddiwyd plaleiddiaid arno.

Ers 2010, mae'r arolygon wedi dilyn cylch dwyflynedd gydag arolygon o gnydau âr, storio tatws, ffrwythau meddal a pherllannau yn cael eu cynnal yn ystod blynyddoedd eilrif (2010, 2012, 2014 ac ati) ac arolygon o lysiau awyr agored a chnydau bwytadwy dan orchudd mewn blynyddoedd odrif (2011, 2013, 2015, 2017 ac ati). Cynhelir arolygon o laswelltiroedd a chnydau porthiant (2017 oedd yr arolwg diwethaf) a sefyllfaoedd amwynder (2016 oedd yr arolwg diwethaf) bob pedair blynedd. O ganlyniad, mae'r canlyniadau isod wedi'u rhannu yn ôl arolygon unigol, er mwyn cymharu blynyddoedd. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ddata'r arolygon o gnydau âr sy'n dangos pwysau'r plaleiddiaid a ddefnyddiwyd, nifer y cynhyrchion/sylweddau actif a ddefnyddiwyd ac amlder y triniaethau.

Mae'r PUS hefyd yn cofnodi'r arwynebedd lle y defnyddiwyd plaleiddiaid. Fodd bynnag, mae hyn o ddefnydd cyfyngedig gan fod yr arwynebedd a gofnodir yn adiol ac felly mae'r arwynebedd yn fwy nag arwynebedd tyfu cnydau gwirioneddol y DU, h.y. os defnyddir dau sylwedd actif ar ardal benodol, mae'r arwynebedd yn dyblu, os defnyddir tri sylwedd actif ar yr ardal dan sylw mae'r arwynebedd yn treblu ac ati. Yn lle hynny, mae'r adolygiad hwn yn defnyddio mesurau o nifer y cylchoedd chwistrellu, a ystyrir yn fwy defnyddiol o ran asesu newidiadau yn y defnydd o blaleiddiaid dros amser.
Noder bod data cyn 2010 yn cyfeirio at Brydain Fawr a bod data o 2010 ymlaen yn cyfeirio at y Deyrnas Unedig. Ers 2010, mae pob arolwg o'r defnydd o blaleiddiaid ym maes amaethyddiaeth a garddwriaeth wedi cael ei gydlynu'n llawn gan dimau arolygu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.


### 3.4.1 Cnydau âr

Heblaw am laswelltir parhaol, mae cnydau âr yn cyfrif am y defnydd mwyaf o dir amaethyddol yn y DU – bron 4.6 miliwn hectar yn 2019. Cynhelir arolygon o'r defnydd o blaleiddiaid ar gnydau âr bob dwy flynedd. Am y rheswm hwn, cyflwynir cyfres amser hwy i ddangos newid. Mae cyfanswm y pwysau amcangyfrifedig a ddefnyddiwyd ar gnydau âr ym Mhrydain Fawr yn dangos gostyngiad bach ar y cyfan rhwng 1998 a 2008, gydag amrywiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn ystod y cyfnod hwn. Rhwng 2008 a 2010 y

cafwyd y gostyngiad mwyaf er bod y data hefyd yn cynnwys Gogledd Iwerddon o 2010 ymlaen. Y rheswm dros hyn oedd y gostyngiadau mawr yn y defnydd o isoprotwron a thrifflwralin ar ôl newidiadau yn eu cymeradwyaeth a gostyngiad sylweddol yn y defnydd o fetaldehyd ers 2008. Wedyn, cafwyd cynnydd cyffredinol yn y pwysau a ddefnyddiwyd rhwng 2010 a 2018 (Ffigur 2). Y prif reswm dros y cynnydd cyffredinol hwn yn y pwysau a ddefnyddiwyd rhwng 2010 a 2018 oedd cynnydd yn y defnydd o glorothalonil, glyffosat a lamda-syhalothrin.


Mae amlder defnyddio plaleiddiaid ar gnydau yn newid hefyd (Ffigur 2). Mae nifer y cylchoedd chwistrellu cnydau âr wedi cynyddu o 4.6 yn 1998 i 6.2 yn 2018. Yn yr un modd, mae nifer y sylweddau actif a chynhyrchion a ddefnyddiwyd ar gnydau âr hefyd wedi cynyddu dros y cyfnod hwn (Ffigur 3 a Ffigur 4).

**Ffigur 2.** Defnydd amcangyfrifedig o blaleiddiaid (gan gynnwys triniaethau hadau) ar gnydau âr, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).





**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

**Ffigur 3.** Nifer cyfartalog o gylchoedd chwistrellu cnydau âr, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).





**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

**Ffigur 4.** Nifer cyfartalog o sylweddau actif a ddefnyddiwyd ar gnydau âr, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

**Ffigur 5.** Nifer cyfartalog o gynhyrchion a ddefnyddiwyd ar gnydau âr, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).





**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

### 3.4.2 Gwenith

Yn 2019, defnyddiwyd 1.8 miliwn hectar i dyfu gwenith yn y DU (40% o'r arwynebedd a ddefnyddir i dyfu cnydau âr).[8] Yn y CGC blaenorol, nodwyd gwenith fel cnwd i'w gofnodi ac felly cyflwynir y ffigurau cryno canlynol isod. Mae'r Fforwm Plaleiddiaid yn cofnodi data tebyg ar rêp had olew.


**Ffigur 6.** Defnydd amcangyfrifedig o blaleiddiaid (gan gynnwys triniaethau hadau) ar wenith, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o


[8] Arolwg Mehefin Defra, 2019

**Ffigur 7.** Nifer cyfartalog o gylchoedd chwistrellu gwenith, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).





**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

**Ffigur 8.** Nifer cyfartalog o sylweddau actif a ddefnyddiwyd ar wenith âr, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

**Ffigur 9.** Nifer cyfartalog o gynhyrchion a ddefnyddiwyd ar wenith, Prydain Fawr (1998-2008), y Deyrnas Unedig (2010-2018).




**Ffynhonnell:** Arolwg o'r Defnydd o

## 3.5 Diogelu Dŵr[9]

Gall plaleiddiaid fynd i mewn i ddŵr drwy amrywiol lwybrau megis drwy ddŵr ffo, gorchwistrellu, drifftio, llifau draeniau a gwaredu.

Mae dŵr daear yn darparu traean o ddŵr yfed Lloegr, yn ogystal â chynnal y llif mewn llawer o afonydd. Mewn rhai rhannau o dde Lloegr, mae dŵr daear yn cyflenwi hyd at 80% o'r dŵr yfed o'r tap (Asiantaeth yr Amgylchedd). Dynodir pob corff dŵr daear yn Lloegr yn ardal warchodedig dŵr yfed. Mae hyn yn anelu at ddiogelu dŵr daear rhag gordynnu ac atal dirywiad yn ansawdd dŵr daear a allai gynyddu prosesau trin dŵr yfed. Mae prosesau trin dŵr yfed yn gofyn am gryn ynni ac adnoddau. Diffinnir corff o ddŵr daear yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fel cyfaint penodol o ddŵr daear mewn dyfrhaen neu ddyfrhaenau.

Cofnodir data dŵr ar gyfer y DU yn flynyddol heb gymharu blynyddoedd blaenorol. Yng Nghymru a Lloegr, casglwyd data ar Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed a oedd mewn perygl o beidio â chydymffurfio ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Dyfroedd a ddefnyddir i dynnu dŵr yfed) o ganlyniad i halogi plaleiddiaid, cyrff dŵr daear sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid a Chyrff Dŵr Wyneb nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn yr Alban, casglwyd data ar Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed a oedd mewn perygl o beidio â chydymffurfio ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o

[9] Mae'r crynodeb a gynhwysir yma yn seiliedig ar ddata tan 2018 ac nid yw'n cynnwys y data mwyaf diweddar ar Statws Dosbarthu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gyhoeddwyd ar 17 Medi 2020. Caiff y data hyn eu hystyried i'w cynnwys mewn drafftiau yn y dyfodol.

ganlyniad i halogi plaleiddiaid, cyrff dŵr daear a oedd yn methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid a lleoliadau samplu dŵr daear lle y canfuwyd un neu fwy o blaleiddiaid ar lefelau sydd mewn perygl o fynd yn uwch na 0.1ug/l.

Llysleiddiad actif yw'r bentason a dyma'r plaleiddiad a ganfyddir amlaf mewn dŵr daear yn y DU (Asiantaeth yr Amgylchedd 2018).

Yn Lloegr, ceir 485 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed (Tabl 2). Yn 2018, roedd 129 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed (26.6%) mewn perygl o beidio â chydymffurfio ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i halogi plaleiddiaid. Mae canran yr Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed nad ydynt yn cydymffurfio wedi cynyddu 0.5% o gymharu â gwerth 2017, sef 26.1%, pan ganfuwyd bod 127 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed mewn perygl. Mae nifer y cyrff dŵr sydd wedi'u dosbarthu 'mewn perygl' o ganlyniad i blaleiddiaid penodol, neu'r rhai yr ystyrir eu dosbarthu 'mewn perygl' o ganlyniad i blaleiddiaid penodol, wedi aros yn ddigyfnewid ar y cyfan.

Yng Nghymru yn 2016 roedd 313 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed a nodwyd bod 25 mewn perygl (Tabl 3). Yn 2016, nid oedd unrhyw gyrff dŵr daear wedi methu o ganlyniad i blaleiddiaid. Cyhoeddwyd y data mwyaf diweddar ar gyrff dŵr wyneb nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar hyn o bryd yn 2015. O blith 937 o gyrff dŵr wyneb, aseswyd bod un yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i blaleiddiaid. Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer 2017 na 2018.

Yn yr Alban, nid oedd unrhyw ddyfroedd wyneb yr aseswyd eu bod yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i blaleiddiaid yn 2017 (Tabl 4). Nodwyd bod tri o'r 517 o'r Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb mewn perygl o ddirywio o ganlyniad i blaleiddiaid, sef llai nag 1% o gyfanswm yr Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed. Ar hyn o bryd, asesir bod tri chorff dŵr daear yn yr Alban yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i lefelau plaleiddiaid yn 2017. Roedd gwaith monitro yn ystod 2017 mewn lleoliadau samplu wedi canfod bod tua 45 o sylweddau actif plaleiddiaid uwchlaw'r terfyn canfod.

**Tabl 2.** Data dŵr ar gyfer Lloegr

| Blwyddyn | Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yn Lloegr lle mae asesiadau yn dangos bod plaleiddiaid yn peryglu cydymffurfiaeth ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cyrff dŵr daear yn Lloegr sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid | Cyrff Dŵr Wyneb yn Lloegr nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran Plaleiddiaid |
|---|---|---|---|
| 2014 | 485 o ardaloedd<br>115 mewn perygl o ganlyniad i blaleiddiaid | Dim data | Dim data |
| 2015 | 486 o ardaloedd<br>123 mewn perygl o ganlyniad i blaleiddiaid | 271 o gyrff dŵr daear<br>16 o fethiannau o ganlyniad i blaleiddiaid | 4678 o gyrff dŵr wyneb<br>10 methiant rhwng 2012 a 2014 |
| 2016 | Dim data | Dim data | 4678 o gyrff dŵr wyneb<br>Sefyllfa heb ei newid ers 2015 (10 methiant) |
| 2017 | 485 o ardaloedd<br>127 mewn perygl o ganlyniad i blaleiddiaid | 225 o gyrff dŵr daear<br>7 methiant o ganlyniad i blaleiddiaid | Dim data |
| 2018 | 485 o ardaloedd<br>129 mewn perygl o ganlyniad i blaleiddiaid | Dim data | Dim data |

**Ffynhonnell:** Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Tabl 3**. Data dŵr ar gyfer Cymru

| Blwyddyn | Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yng Nghymru lle mae asesiadau yn dangos bod plaleiddiaid yn peryglu cydymffurfiaeth ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cyrff dŵr daear yng Nghymru sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid | Cyrff Dŵr Wyneb yng Nghymru nad ydynt yn cyrraedd Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran Plaleiddiaid |
|---|---|---|---|
| 2014 | **67 o ardaloedd**<br>Nifer isel mewn perygl | **Dim data** | **Dim data** |
| 2015 | **Dim data** | Nodwyd nad oedd unrhyw gyrff dŵr daear wedi methu o ganlyniad i blaleiddiaid yng nghylch<br>dosbarthu diweddaraf y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i Gymru ar gyfer dŵr daear, a oedd yn seiliedig ar ddata 2013 | **937 o gyrff dŵr wyneb**<br>Aseswyd bod 1 wedi methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i blaleiddiaid |
| 2016 | **313 o ardaloedd**<br>25 mewn perygl o ganlyniad i blaleiddiaid | Nid oedd unrhyw gyrff dŵr daear wedi methu o ganlyniad i blaleiddiaid yng nghylch dosbarthu diweddaraf y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer dŵr daear | **Dim data** |
| 2017 | **Dim data** | **Dim data** | **Dim data** |
| 2018 | **Dim data** | **Dim data** | **Dim data** |

**Ffynhonnell:** Adroddiadau'r Fforwm Plaleiddiaid 2014-2018
https://webcommunities.hse.gov.uk/connect.ti/pesticidesforum/view?objectId=38419.

**Tabl 4.** Data Dŵr ar gyfer yr Alban

| Blwyddyn | Ardaloedd Diogelu Dŵr Yfed Dŵr Wyneb mewn perygl o beidio â chyflawni amcanion Erthygl 7 o ran plaleiddiaid (y nodwyd eu bod mewn perygl o ddirywio o ganlyniad i blaleiddiaid) | Cyrff dŵr daear sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid | Lleoliadau samplu dŵr daear lle y canfuwyd un neu fwy o blaleiddiaid ar lefelau sydd mewn perygl o fynd yn uwch na 0.1ug/l |
|---|---|---|---|
| **2011** | 5 o'r 346 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1.4% o bob ardal o'r fath yn yr Alban | Dim dyfroedd daear yr aseswyd eu bod yn methu â chyrraedd statws da | Roedd gwaith monitro yn ystod y cyfnod 2008-2010 mewn 15 o leoliadau samplu (o 12 o'r 352 o gyrff dŵr daear yn yr Alban) wedi canfod y sylweddau actif fflworcspyr; trichlopyr; benasolin; clorotolwron; diwron; metocswron; atrasin; bentason; epocsiconasol; isoprotwron; linwron; MCPB; metocswron; pencycwron; simasin; ond ar werthoedd sydd islaw'r safonau rheoliadol. |
| **2012** | 7 o'r 516 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1.4% o bob ardal o'r fath yn yr Alban | Dim dyfroedd daear yr aseswyd eu bod yn methu â chyrraedd statws da | Roedd gwaith monitro yn ystod 2012 wed canfod y sylweddau actif fflworcspyr; clorotolwron; diwron; atrasin; bentason; linwron; mecoprop; ffenwron; pencycwron; simasin; bromocsynil; ocsadicsyl; a MCPA, ond ar werthoedd sydd islaw'r safonau rheoliadol. |
| **2013** | 7 o'r 516 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1.4% o bob ardal o'r fath yn yr Alban. | Dim dyfroedd daear yr aseswyd eu bod yn methu â chyrraedd statws da | 32 o gynhwysion actif uwchlaw'r terfyn canfod. |
| **2014** | 5 o'r 516 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1% o bob ardal o'r fath yn yr Alban. | Aseswyd bod tri chorff dŵr daear yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i lefelau o lysleiddiaid triasin. Achosir dau fethiant gan simasin a'r trydydd gan atrasin. | 50 o gynhwysion actif uwchlaw'r terfyn canfod. Ar y cyfan, arweiniodd llai na 2% o'r dadansoddiadau a gynhaliwyd gan SEPA ar gyfer dŵr daear at ganfod gweddillion. |
| **2015** | 6 o'r 516 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1.2% o bob ardal o'r fath yn yr Alban | Aseswyd bod tri chorff dŵr daear yn yr Alban yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i lefelau plaleiddiaid. Achosir un o'r methiannau gan atrasin a'r ddau arall gan simasin. | 52 o gynhwysion actif uwchlaw'r terfyn canfod. Ar y cyfan, arweiniodd llai na 3% o'r dadansoddiadau a gynhaliwyd gan SEPA ar gyfer dŵr daear at ganfod gweddillion. O'r gweddillion a ganfuwyd, roedd 44 o ganlyniadau yn uwch na 0.075 µg/ (sef y crynodiad sy'n dynodi risg o dorri'r terfyn o 0.1 µg/l). O'r rhain, mae 0.2% o'r dadansoddiadau mewn perygl o fynd yn uwch na'r terfyn 0.1 µg/l. |
| **2016** | 4 o'r 517 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb, sef 1% o bob ardal o'r fath yn yr Alban. | Aseswyd bod tri chorff dŵr daear yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i lefelau plaleiddiaid. Achosir un o'r methiannau gan atrasin a'r ddau arall gan simasin. | 40 o gynhwysion actif uwchlaw'r terfyn canfod. Ar y cyfan, arweiniodd llai na 3% o'r dadansoddiadau a gynhaliwyd gan SEPA ar gyfer dŵr daear at ganfod gweddillion. Roedd 24 o'r canlyniadau yn uwch na 0.075 µg/ (sef y crynodiad sy'n dynodi risg o dorri'r terfyn o 0.1 µg/l). O'r rhain, mae 0.3% o'r dadansoddiadau mewn perygl o fynd yn uwch |

| Blwyddyn | Ardaloedd Diogelu Dŵr Yfed Dŵr Wyneb mewn perygl o beidio â chyflawni amcanion Erthygl 7 o ran plaleiddiaid (y nodwyd eu bod mewn perygl o ddirywio o ganlyniad i blaleiddiaid) | Cyrff dŵr daear sy'n methu â chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ganlyniad i blaleiddiaid | Lleoliadau samplu dŵr daear lle y canfuwyd un neu fwy o blaleiddiaid ar lefelau sydd mewn perygl o fynd yn uwch na 0.1ug/l |
|---|---|---|---|
| | | | na'r terfyn o 0.1 µg/l. |
| **2017** | Nodir bod 3 o'r 517 o Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed dŵr wyneb yn yr Alban mewn perygl o ddirywio o ganlyniad i blaleiddiaid, sef <1% o bob ardal o'r fath yn yr Alban. (Canlyniadau monitro 2017) | Aseswyd bod tri chorff dŵr daear yn methu â chyrraedd statws da o ganlyniad i lefelau plaleiddiaid. Achosir un o'r methiannau gan atrasin a'r ddau arall gan simasin. | 45 o gynhwysion actif uwchlaw'r terfyn canfod. Ar y cyfan, arweiniodd llai na 3% o'r dadansoddiadau a gynhaliwyd gan SEPA ar gyfer dŵr daear at ganfod gweddillion ac o'r rhain, mae 0.3% o'r dadansoddiadau mewn perygl o fynd yn fwy na'r terfyn o 0.1 µg/l. Roedd 18 o'r canlyniadau yn uwch na 0.075 µg/ (sef y crynodiad sy'n dynodi risg o dorri'r terfyn o 0.1 µg/l). |

**Ffynhonnell:** Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban.

## 3.6 Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Ceisiodd fframwaith dangosyddion CGC 2013 ddefnyddio data ar gyfranogiad mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd fel dangosydd o gynnydd ym maes diogelu'r amgylchedd (Tabl 1 – is-benawdau 8.4-8.7). Oherwydd amrywiadau yn nyluniad cynlluniau ers 2013, nid oes modd cymharu'r data hyn ac felly nid ydynt yn cynrychioli newidiadau ym maes diogelu'r amgylchedd. Er enghraifft, yn Lloegr, disodlwyd y cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol gan y cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn 2015. Mae'r cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad yn gweithredu mewn ffordd hollol wahanol i'r cynllun blaenorol a'i nod yw rhoi cymhelliant i gymryd camau â mwy o ffocws sydd wedi'u targedu'n well, ar lefel cae unigol yn hytrach na dull fferm gyfan ehangach y cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol. Arweiniodd y newid hwn i'r dull gweithredu at leihad yn nifer y rhai a oedd yn cymryd rhan ond roedd yn ofynnol i lawer o ffermydd nad oeddent yn rhan o'r cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad barhau i gymryd camau amgylcheddol er mwyn cydymffurfio â mesurau gwyrddu o dan y Cynllun Taliadau Sylfaenol. Felly, wrth i'r cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad gael ei gyflwyno, newidiwyd y llinell sylfaen, a arweiniodd at sefyllfa lle roedd canlyniadau amgylcheddol yn parhau i wella er gwaethaf y canfyddiad bod llai o ffermydd yn cymryd rhan. Roedd y cynlluniau hefyd yn cael eu cofnodi ar raddfeydd gofodol gwahanol. Roedd aelodau o'r cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol yn cofrestru hectarau eu fferm gyfan ond

roedd aelodau o'r cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad ond yn cofrestru'r caeau a oedd yn cael eu rheoli drwy gamau â chymhelliant. Digwyddodd sefyllfaoedd tebyg yng ngwledydd eraill y DU. Gan fod cynlluniau amaeth-amgylchedd yn rhedeg am gyfnod penodedig ac yn cael eu diweddaru a'u disodli, nid yw cyfranogiad ynddynt ar ei ben ei hun yn ddangosydd dibynnol ar gyfer canlyniadau amgylcheddol.

(h) Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch iwww.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

pesticides@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra